



Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Adolygiad o'r Polisi Presennol ar Waredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd: Ystyried yr Ymatebion

Dyddiad cyhoeddi: **Mai 2015**

Cyflwyniad

- i. Mae gwaredu gwastraff ymbelydrol yn fater datganoledig: felly Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am benderfynu ar y polisi i waredu gwastraff ymbelydrol yng Nghymru.
- ii. Polisi Llywodraeth Cymru ynglŷn â gwaredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd (GUA) ers 2008 yw peidio â chefnogi, nac ychwaith wrthwynebu polisi gwaredu daearegol y Deyrnas Unedig wrth barhau i chwarae rhan lawn yn y Rhaglen Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel. Fodd bynnag, nododd, pe bai cymuned yng Nghymru yn dymuno mynegi diddordeb mewn cynnig lleoliad ar gyfer cyfleuster gwaredu daearegol (CGD) o bosibl, y byddai'n ystyried ei safbwynt bryd hynny.
- iii. Yn dilyn Cais am Dystiolaeth yn 2014¹, a nododd nifer o resymau pam y gall fod angen ailystyried y polisi, penderfynodd Llywodraeth Cymru adolygu ei pholisi, a arweiniodd at gyhoeddi'r Ddogfen Ymgynghori, *Adolygiad o Bolisi Llywodraeth Cymru ar Reoli a Gwaredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd*² ar 23 Hydref 2014.
- iv. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 22 Ionawr 2015. Cafwyd cyfanswm o 56 o ymatebion unigol gan sefydliadau anllwydraethol, awdurdodau lleol, rheoleiddwyr, y diwydiant niwclear ac aelodau o'r cyhoedd o Gymru a thu hwnt, ymhlith eraill.
- v. Mae'r ystyriaeth hon o'r ymatebion yn nodi ac yn dadansoddi Pennod 2, o'r prif themâu sy'n deillio o'r ymatebion a gafwyd. Caiff yr ymatebion llawn eu cyhoeddi hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru (oni bai bod yr ymatebydd wedi gofyn inni beidio â gwneud hynny) am resymau tryloywder.

¹ www.wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/disposing-of-higher-activity-radioactive-waste/?lang=cy

² <http://gov.wales/consultations/environmentandcountryside/disposal-higher-activity-radioactive-waste/?skip=1&lang=cy>

Cefndir

- vi. Am nifer o resymau a drafodir yn y Cais am Dystiolaeth ac unwaith eto yn y ddogfen ymgynghori, ac o ganlyniad i'r dadansoddiad o'r ymatebion a gafwyd i'r Cais cynharach am Dystiolaeth, penderfynodd Llywodraeth Cymru y dylai adolygu ei pholisi ar waredu GUA er mwyn sicrhau y bydd yn parhau i fod yn berthnasol ac yn briodol i anghenion Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys yr angen i gydymffurfio â'r Gyfarwyddeb Gweddillion Tanwydd a Gwastraff Ymbelydrol; mae safbwynt Llywodraeth Cymru ynglŷn â gorsafoedd ynni niwclear newydd ar safleoedd sy'n bodoli eisoes wedi newid ers i'r polisi gael ei fabwysiadu; ac mae Llywodraeth y DU wedi ailddechrau ei phroses leoli ar gyfer CGD yn Lloegr.
- vii. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad er mwyn ceisio barn pobl Cymru ar y canlynol: a ddylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu polisi ar gyfer gwaredu GUA (a gweddillion tanwydd os datgenir eu bod yn wastraff); a ddylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu polisi gwaredu daearegol; ac, os na ddylai wneud hynny, pa lwybr gwaredu amgen y dylai ei fabwysiadu. Ceir y rhestr lawn o gwestiynau yn atodiad 1.
- viii. Lansiodd y Gweinidog Adnoddau Naturiol yr ymgynghoriad ar 23 Hydref 2014 a chyhoeddwyd y ddogfen ar dudalennau ymgynghori Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd i aelodau o'r cyhoedd ymateb drwy gyflwyno'r ffurflen ymateb, naill ai drwy e-bost neu drwy'r post.
- ix. Mae nifer o ymatebwyr wedi cyfeirio at y Pwyllgor ar Reoli Gwastraff Ymbelydrol (CoRWM). Mae CoRWM yw cynghorydd annibynnol Llywodraeth Cymru ar reoli a gwaredu gwastraff ymbelydrol. Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am gyngor gan CoRWM yn ystod y gwaith o lunio ei bolisi. Ymatebion i'r ymgynghoriad wedi dehongli gwaith cynharach CoRWM mewn ffyrdd nad oedd yn cyd-fynd dealltwriaeth Llywodraeth Cymru. Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn am sylwadau CoRWM ar yr ymatebion hyn sydd i'w gweld yn Atodiad 2.

Pennod 1

Crynodeb

1. 1 Mae'r ymatebion i'r Ymgynghoriad wedi cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru³. Ceir crynodeb o'r ymatebion i bob cwestiwn ym Mhennod 1.
1. 2 Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a gyflwynwyd ac yn tynnu sylw at y prif themâu a ddaeth i'r amlwg yn y cais am dystiolaeth. Mae ystyriaeth Llywodraeth Cymru o'r ymatebion hyn i'w gweld ym Mhennod 2.
1. 3 O'r 56 o ymatebion, cafwyd 14 fel rhan o ymgyrch a oedd yn seiliedig ar yr ymateb a gyflwynwyd gan Radiation Free Lakeland.

Sut rydym wedi dadansoddi'r ymatebion?

1. 4 Mewn rhai achosion, nid atebodd ymatebwyr y cwestiynau yn y ddogfen ymgynghori, ond gwnaethant sylwadau ar faterion cysylltiedig eraill. Yn yr achosion hyn rydym wedi cynnwys ystyriaeth o'r pwyntiau hynny fel rhan o'r ymatebion i Gwestiwn 4: "A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd?". Yn y modd hwn, mae pob barn a gyflwynwyd wedi cael ei hystyried.
1. 5 Os nad yw'r ymatebwyr wedi ateb y cwestiwn yn benodol ond ei bod yn ddigon clir o weddill yr ymateb y gellir gwneud asesiad i ddeall safbwyntiau'r ymatebwyr, mae'r rhain wedi'u cynnwys fel atebion i'r cwestiwn. Er enghraifft, os nad atebodd yr ymatebydd gwestiwn 1 yn benodol ond, yng ngweddill yr ymateb, ei fod yn dadlau bod angen mabwysiadu opsiwn gwaredu penodol, rydym wedi dehongli bod yr ymatebydd am weld Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu polisi ar waredu.

³ <http://gov.wales/consultations/environmentandcountryside/disposal-higher-activity-radioactive-waste/?skip=1&lang=cy>

Cwestiwn 1: Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu ei pholisi presennol ar waredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd a gweddillion tanwydd y datgenir eu bod yn wastraff. Wrth gynnal yr adolygiad hwn, mae gan Lywodraeth Cymru dri opsiwn, sef:

- **a ddylai geisio mabwysiadu polisi ar gyfer gwaredu GUA a gweddillion tanwydd os datgenir eu bod yn wastraff?**
- **a ddylai gadw ei safbwynt niwtral presennol lle nad yw'n cefnogi nac yn gwrthwynebu opsiwn gwaredu?**
- **a ddylai fabwysiadu polisi sy'n gwrthwynebu opsiwn gwaredu ar gyfer GUA a gweddillion tanwydd y datgenir eu bod yn wastraff?**

O'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn, roedd 68% o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu polisi ar gyfer gwaredu GUA.

1. 6 Atebodd 16 o'r ymatebwyr y cwestiwn a ofynnwyd yn benodol.

1. 7 Roedd 11 o'r ymatebwyr o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu polisi ar gyfer gwaredu GUA am nifer o resymau a gynhwyswyd yn y ddogfen ymgynghori gan gynnwys y canlynol:

- Y rhwymedigaeth foesegol i ddiogelu pobl Cymru a'r amgylchedd a pheidio â throsglwyddo'r baich i genedlaethau'r dyfodol.
- Y cyfrifoldeb am fabwysiadu polisiâu cyson a chymryd cyfrifoldeb am ymdrin â'r gwastraff y byddai gorsafoddd ynni newydd yn ei gynhyrchu yn y pen draw;
- Mae digon o dystiolaeth i fod yn hyderus y gellir gwaredu GUA yn ddiogel;
- Mae'r gwaith o reoli ac ail-becynnu gwastraff yn barhaus yn cynyddu'r risg y gall gweithwyr gael eu hamlygu i ymbelydredd.

1. 8 Nododd un ymatebydd y dylid cadw'r safbwynt niwtral presennol am ei fod o'r farn, am nad yw Cymru yn Aelod-wladwriaeth, nad oes unrhyw rwymedigaeth arnom i gydymffurfio â'r Gyfarwydddeb Gwastraff Ymbelydrol a Gweddillion Tanwydd.

1. 9 Roedd pedwar ymatebydd o'r farn y dylid mabwysiadu polisi sy'n gwrthwynebu gwaredu GUA am y rhesymau canlynol:

- Nid oeddent yn cytuno ei bod yn bosibl gwaredu GUA a gwnaethant nodi'r mai'r cyfan a wna'r opsiynau gwaredu presennol yw symud y gwastraff o'r naill leoliad i'r llall;
- Fel y noda ymgynghoriad Llywodraeth Cymru, os yw GUA yn cael ei reoli'n ddiogel ar hyn o bryd ac os bydd yn bosibl gwneud hynny yn y dyfodol rhagweladwy, a oes angen mabwysiadu polisi gwaredu;
- Cynhyrchwyd GUA yng Nghymru yn yr Wylfa a Thrawsfynydd, yr agorwyd y ddwy ohonynt o ganlyniad i bolisiâu Llywodraeth y DU, ac felly Llywodraeth y DU ddylai fod yn gyfrifol am ddelio â'r gwastraff a gynhyrchwyd ganddynt, nid Llywodraeth Cymru.

1. 10 Os na fydd ymatebwyr wedi nodi'n glir pa opsiwn a gefnogir ganddynt, nid ydym wedi ceisio dehongli pa opsiwn a ffefrir ganddynt. Mae cyfran fawr o'r ymatebwyr, wrth drafod opsiynau *gwaredu*, wedi defnyddio enghreifftiau a ddosberthir fel opsiynau *rheoli*. Oherwydd yr anghysondeb hwn ac er mwyn ceisio osgoi camliwio barn yr ymatebwyr, dim ond ymatebion sydd wedi nodi opsiwn a ffefrir yn benodol sydd wedi'u cynnwys.

Cwestiwn 2: A ddylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu polisi ar gyfer gwaredu daearegol i reoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd a gweddillion tanwydd y datgenir eu bod yn wastraff yn yr hirdymor?

O'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, roedd 29% o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu polisi gwaredu daearegol ar gyfer rheoli GUA.

1. 11 Cafwyd ateb uniongyrchol i'r cwestiwn gan 23 o'r ymatebion.

1. 12 Nid oedd 14 o'r rhai a atebodd y cwestiwn o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu polisi o waredu daearegol ar gyfer gwaredu GUA. Rhoddwyd nifer o resymau dros hyn, yn bennaf o fewn y prif themâu canlynol:

- Y gred nad oes unrhyw ffordd o sicrhau y gellir ynysu niwclidau yn llwyddiannus o'r biosffer am y cyfnod angenrheidiol o amser ac y byddai hyn yn gosod baich ychwanegol ar genedlaethau'r dyfodol;
- Pryder mai technoleg nas profwyd yw hon a bod gormod o gwestiynau heb eu hateb a bod y gwaith modelu cyfrifiadurol a fydd yn sail i'r achos diogelwch yn ddiffygiol.
- Gan na fydd cyfran sylweddol o'r gwastraff yng Nghymru yn cael ei gynhyrchu nac yn gorfod cael ei waredu nes i'r safleoedd gael eu clirio'n derfynol neu yn achos gorsafoedd ynni newydd am hyd at 140 o flynyddoedd, nid oes angen adeiladu cyfleuster felly;
- Y gred mai dim ond er mwyn cyfiawnhau adeiladu gorsafoedd ynni newydd y mae gwaredu daearegol yn cael ei ystyried;
- Bydd pryderon ynghylch diogelwch fel gwastraff a osodir yn barhaol yn golygu ei bod yn amhosibl monitro ymbelydredd neu ymyrryd os bydd gwastraff ymbelydrol yn gollwng.

1. 13 Roedd naw ymatebydd o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu polisi gwaredu daearegol am y rhesymau a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori.

Cwestiwn 3: Os na fydd Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu polisi gwaredu daearegol a ddylai mabwysiadu llwybr gwaredu amgen ar gyfer gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd a gweddillion tanwydd y datgenir eu bod yn wastraff? Os felly, pa bolisi y dylai ei fabwysiadu?

O'r rhai a atebodd y cwestiwn, nododd 64% fod yn well ganddynt ryw fath o gyfleuster storio ger y safle, wrth ymyl yr wyneb ar gyfer gwaredu GUA yn yr hirdymor.

1. 14 Ni wnaeth 22 o'r ymatebwyr fynd i'r afael â'r cwestiwn hwn. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys y rhai na wnaethant ddarparu ymateb fel bod modd casglu eu barn ar y cwestiwn hwn. Nododd chwe ymatebydd yn benodol na ddylai fod unrhyw opsiwn gwaredu amgen.
1. 15 O'r rhai a aeth i'r afael â'r cwestiwn yn uniongyrchol, mae 22 yn awgrymu eu bod o blaid polisi tebyg i'r un a fabwysiadwyd gan y Llywodraeth y Alban (neu ger y safle, ar yr wyneb neu wrth ymyl yr wyneb) gyda'r bwriad o adfer gwastraff/rheoli ac ail-becynnu gwastraff yn barhaus. Mae hyn yn cynnwys y 14 o ymatebwyr o'r ymgyrch Radiation Free Lakeland. Fodd bynnag, rhoddodd y ddogfen ymgynghori rhesymau pam na ellir ystyried hyn er mwyn ateb y diffiniad o waredu.
1. 16 Argymhellodd un ymatebydd y dylid gosod gwastraff ymbelydrol wrth ymyl yr wyneb heb unrhyw fwriad i adfer gwastraff ar gyfer rhan o'r stocrestr.
1. 17 Argymhellodd un ymatebydd y dylid codi mawsolea o goncrid cyfnerthedig ar y ddaear i gynnwys y gwastraff.
1. 18 Roedd un ymatebydd o'r farn, pe na châi unrhyw wastraff arall ei ychwanegu at y stocrestr, y byddai'n bosibl llacio cyfyngiadau rhyngwladol a gwaredu gwastraff mewn ffyrdd megis ei osod o dan wely'r môr a'i wasgaru'n raddol i mewn i'r môr.

C4 . A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd a gweddillion tanwydd y datgenir eu bod yn wastraff?

1. 19 Codwyd amrywiaeth o faterion o dan y cwestiwn hwn gan yr ymatebwyr, fodd bynnag cododd ychydig o themâu dro ar ôl tro ac mae'r rhain wedi cael eu trafod Pennod 2. Y brif thema oedd galw ar Lywodraeth Cymru i dynnu'n ôl ei chefnogaeth i unrhyw orsafoedd ynni niwclear newydd a fydd yn arwain at gynhyrchu mwy o GUA. Cododd nifer o ymatebwyr bryderon ynghylch diogelwch y diwydiant Niwclear a gwastraff ymbelydrol.
1. 20 Roedd rhai ymatebwyr, yr ymddengys fod y rhan fwyaf ohonynt yn ymateb fel rhan o ymgyrch am eu bod yn dyfynnu rhannau o ymateb Radiation Free Lakeland, o dan y camargraff bod Llywodraeth Cymru yn cynnig cyfleuster yn Cumbria ac maent wedi gwneud y cysylltiad gyda sylwadau gan Albert Owen AS.

Pennod 2

Ystyriaeth Llywodraeth Cymru o'r prif themâu a godwyd gan ymatebion i'r ymgynghoriad

2. 1 Mae'r bennod hon yn cynnwys ystyriaeth Llywodraeth Cymru o'r prif themâu a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar reoli a gwaredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd a gyhoeddwyd ar 23 Hydref 2014 ("yr ymgynghoriad"). Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r ymatebion a gyflwynwyd gyda Phennod 1, ynghyd â dadansoddiad yn cyfrif yr ymatebion i'r cwestiynau a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad. Mae'r bennod hon yn trafod rhai o'r prif themâu a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad.
2. 2 Mae Llywodraeth Cymru yn ddiolchgar i'r unigolion a'r sefydliadau a ymatebodd i'r ymgynghoriad. Wrth wneud sylwadau ar y prif themâu yn codi o'r ymatebion i'r ymgynghoriad mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y safbwyntiau a fynegwyd yn ofalus a hefyd wedi ystyried cyngor arbenigol y mae wedi'i gael.
2. 3 Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu polisi⁴ ar gyfer gwaredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd (GUA) a gweddillion tanwydd yn ddaearegol⁵. Wrth benderfynu mabwysiadu'r polisi hwnnw, cafodd Llywodraeth Cymru gymorth gan yr ymatebion a gafodd i'r ymgynghoriad a'r cyngor arbenigol y mae wedi'i gael.

Y prif themâu a godwyd mewn ymatebion i'r cais am dystiolaeth

2. 4 Mae'r bennod hon yn cynnwys ystyriaeth Llywodraeth Cymru o'r prif themâu a godwyd yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad. Mae llawer o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn codi materion tebyg i'r rhai a godwyd mewn ymateb i'r cais am dystiolaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 29 Ebrill 2014⁶. Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y materion hyn yn ofalus eto. Mewn llawer o achosion, mae Llywodraeth Cymru wedi dod i'r un casgliad neu gasgliad tebyg ac adlewyrchir hyn yn y dadansoddiad hwn.

⁴ Llywodraeth Cymru. *The Welsh Government Policy on the Management and Disposal of Higher Activity Radioactive Waste*. Mai 2015

⁵ Yng nghyd-destun y ddogfen hon mae'r term GUA cael ei ddefnyddio i dalu am y mathau o wastraff ymbelydrol sy'n ffurfio GUA (gwastraff lefel uchel, gwastraff lefel ganolradd ac gwastraff lefel isel), gweddillion tanwydd, dylid ei ddatgan fel gwastraff ac eraill deunyddiau. Ni datgan ar hyn o bryd fel gwastraff a all gael eu datgan fel gwastraff yn y dyfodol, ac mae'n cynnwys GUA a gweddillion tanwydd o orsafoedd ynni niwclear newydd.

⁶ <http://gov.wales/consultations/environmentandcountryside/disposing-of-higher-activity-radioactive-waste/?skip=1&lang=cy>

Y prif themâu a godwyd mewn ymatebion i'r cais am dystiolaeth

2. 5 Nid oes modd gwaredu gwastraff ymbelydrol.

- a. *Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn na ellir defnyddio'r term gwaredu gan y bydd GUA yn parhau i fod yn niweidiol am gyfnodau hirfaith.*
- b. *Roedd rhai ymatebwyr o'r farn na all gwaredu daearegol ynysu gwastraff ymbelydrol oddi wrth amgylchedd y ddaear.*
- c. *Defnyddir y termau storio a gwaredu yn y ddogfen hon i ddynodi ystyron penodol fel y'u diffinnir yn y Gyfarwyddeb Gweddillion Tanwydd a Gwastraff Ymbelydrol⁷:*

Article 3 (3): "disposal" means the emplacement of spent fuel or radioactive waste in a facility without the intention of retrieval;

Article 3 (14): "storage" means the holding of spent fuel or radioactive waste in a facility with the intention of retrieval.

- d. *Felly yn achos gwaredu nid oes disgwyliad y bydd angen ymyrryd pellach ar ran cenedlaethau'r dyfodol.*
- e. *Er y gellir gwneud darpariaeth at ddibenion monitro parhaus a/neu adfer y gwastraff, o leiaf am gyfnod, y polisi sy'n sail i raglen gwaredu daearegol Llywodraeth y DU, ac eraill ledled y byd, yw na ddylai fod angen ymyrryd pan fydd y gwastraff wedi'i osod mewn cyfleuster ac yn sicr unwaith y bydd y cyfleuster wedi'i gau. Mae Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r dull hwn.*
- f. *Bydd y rheoleiddwyr yn gofyn am achos diogelwch sy'n gyson â'r bwriad i beidio ag ymyrryd ar ôl i'r cyfleuster gau. Caiff unrhyw drefniadau ar gyfer monitro a/neu adfer gwastraff eu hadolygu gan y rheoleiddwyr er mwyn sicrhau nad ydynt yn effeithio ar yr achos diogelwch dros unrhyw Gyfleuster Gwaredu Daearegol (CGD) arfaethedig mewn modd annerbyniol. Bydd y rheoleiddwyr hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r achos diogelwch dros unrhyw CGD arfaethedig ddangos y bydd lefel amgáu ac ynysu'r gwastraff yn atal symiau niweidiol o ymbelydredd rhag cyrraedd yr wyneb yn yr hirdymor.*
- g. *Mynegodd rhai ymatebwyr bryder ynghylch diogelwch hirdymor gwaredu daearegol. Roedd rhai ymatebion hefyd yn pryderu am ddefnyddio modelu cyfrifiadurol i ddilysu gwaredu daearegol.*

⁷ <http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?uri=CELEX:32011L0070&qid=1397211079180>

- h. Bydd angen i'r datblygwr (RWM Ltd) ddarparu achos diogelwch llawn a boddhaol i'r rheoleiddwyr, wedi'i ategu gan dystiolaeth, cyn y gellir adeiladu CGD. Mae modelu cyfrifiadurol yn ffordd arferol o brofi amrywiaeth o sefyllfaoedd mewn prosiectau diwydiannol cymhleth gan gynnwys rhai mwy eithafol a llai tebygol. Bydd angen i'r rheoleiddwyr fod yn fodlon ar drylwyrdd y broses hon cyn cymeradwyo adeiladu CGD.
- i. *Roedd rhai ymatebion yn pryderu y byddai daeargrynfeydd neu ffurfio nwyon yn gwneud gwaredu daearegol yn annïogel.*
- j. Hefyd, codwyd pryderon am effaith daeargrynfeydd yn yr ymateb i'r cais am dystiolaeth a cheisiodd Llywodraeth Cymru gyngor gan y Pwyllgor ar Reoli Gwastraff Ymbelydrol (CoRWM) ar hyn. Cyngor CoRWM ar y pryd oedd:

“Approval for a GDF under UK regulations would require demonstration of a robust safety case. The production of CO2 and methane within the waste would be considered as part of the design as would vulnerability to earth movements.

In conclusion, CoRWM's position remains that “geological disposal remains the best available approach for the long-term management when ... compared with the risks associated with other methods of management” (CoRWM Doc 700 Recommendation 1).

2. 6 Yr unig ateb diogel yw peidio â chreu mwy o wastraff ymbelydrol

- a. *Roedd rhai ymatebwyr o'r farn nad oes opsiwn gwaredu diogel yn bodoli, yn eu barn hwy; yr unig beth diogel i'w wneud oedd peidio â chreu mwy o wastraff ymbelydrol. Dylai Llywodraeth Cymru beidio â chefnogi gorsafoedd ynni niwclear newydd ac yn benodol yr orsaf ynni niwclear newydd arfaethedig yn Wylfa Newydd.*
- b. Nid yw Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r farn nad oes unrhyw opsiwn diogel i waredu GUA a gweddillion tanwydd. Aeth CoRWM 1 ati i ystyried yr opsiynau ar gyfer rheoli GUA a gweddillion tanwydd yn y dyfodol yn fanwl ac yn helaeth cyn cynghori'r Llywodraethau bod gwaredu daearegol yn opsiwn rheoli diogel ac mai hwn hefyd oedd yr opsiwn rheoli gorau. Mae'r rheoleiddwyr (Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Swyddfa Rheoleiddio Niwclear) wedi nodi, ar ôl adolygiad o achos diogelwch system waredu gyffredinol RWM, nad oes unrhyw reswm ar hyn o bryd, yn eu barn hwy, pam na ellid cyflwyno achos diogelwch gweithredol, amgylcheddol neu gludiant dros gyfleuster gwaredu daearegol (CGD). Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi bod gwledydd ledled y byd sy'n ymgymryd â rhaglenni gwaredu gwastraff ymbelydrol mwy

hirhoedlog a gweddillion tanwydd yn gwneud hynny drwy ddefnyddio gwaredu daearegol.

2. 7 Defnyddio'r ddaeareg orau

- a. *Roedd rhai ymatebwyr o'r farn mai dim ond mewn ardaloedd lle y ceir y ddaeareg orau neu fwyaf addas y dylai'r rhaglen Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel (MRWS) ystyried lleoli CGD ac na ddylid dibynnu ar gymysgedd o rwystrau artiffisial a naturiol.*
- b. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'r safbwyntiau hyn. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ystyried y safbwyntiau a fynegwyd gan CoRWM a'r rheoleiddwyr y bydd gwaredu daearegol mewn unrhyw gyd-destun yn cynnwys nifer o rwystrau sy'n atal ymbelydredd rhag cael ei ryddhau i'r amgylchedd: ffurf y gwastraff, y ffordd y caiff ei becynnu, rhwystrau artiffisial a daearegol. Derbynnir rhwystr lluosog yn rhyngwladol, er enghraifft, yng nghanllawiau IAEA⁸. Y datblygwr fydd yn gyfrifol am argyhoeddi'r rheoleiddwyr bod y cymysgedd o rwystrau a gynigir yn yr achos diogelwch dros CGD yn cyrraedd y safon ofynnol ac y gallant amgáu ac ynysu gwastraff yn ddiogel yn yr hirdymor. Bydd yr achos diogelwch hwnnw yn cynnwys ystyried addasrwydd daeareg y safle arfaethedig fel y'i nodir gan brofion helaeth, gan gynnwys profion tyllau turio.
- c. Daw cyngor CoRWM ar y mater hwn i'r casgliad:

“CoRWM has repeatedly emphasised that geology has to be considered in the context of, and as one element contributing to, the safety case. This will inevitably involve consideration of both geology and engineering factors and, if it is not possible to make a safety case in a particular geological setting (i.e. the geology is not 'good' enough), this will become apparent.”
- d. *Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru adael y rhaglen Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel nes bod y rhaglen yn cyfyngu ei hun i ystyried y ddaeareg orau yn unig.*
- e. Ym marn Llywodraeth Cymru, ni fyddai er budd pobl Cymru pe bai'n gadael rhaglen Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel a thrwy hynny'n ei hatal rhag sicrhau y caiff buddiannau pobl Cymru eu hystyried yn y rhaglen. Byddai gadael y rhaglen hefyd yn anghyson â Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu polisi ar gyfer gwaredu daearegol fel y dull gorau o reoli gwastraff GUA a gweddillion tanwydd yn yr hirdymor.

⁸ [http://www-pub.iaea.org/books/IAEABooks/8535/Geological-Disposal-Facilities-am-Radioactive Waste-Specific-Safety-Guide](http://www-pub.iaea.org/books/IAEABooks/8535/Geological-Disposal-Facilities-am-Radioactive-Waste-Specific-Safety-Guide)

2. 8 *Dylai gwastraff ymbelydrol gael ei reoli ar yr wyneb*

- a. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu polisi o reoli GUA ar yr wyneb neu wrth ymyl yr wyneb yn barhaus (yn debyg i bolisi Llywodraeth yr Alban o reoli ar yr wyneb neu wrth ymyl yr wyneb⁹)
- b. Noda Llywodraeth Cymru fod argymhelliad CoRWM 1 mai gwaredu daearegol yw'r opsiwn rheoli hirdymor gorau ar gyfer GUA a gweddillion tanwydd wedi cael ei gadarnhau gan CoRWM 2¹⁰. Mae gwaredu daearegol hefyd wedi cael ei fabwysiadu'n fyd-eang gan wledydd sy'n bwrw ymlaen â'r broses o waredu GUA neu weddillion tanwydd.
- c. Cydnabu CoRWM fod storio interim diogel yn rhan hanfodol o reoli GUA nes bod unrhyw raglen gwaredu ar waith. Mae GUA yn cael ei storio'n ddiogel ar hyn o bryd ar yr wyneb (e.e. yn y storfa gwastraff ymbelydrol lefel ganolraddol (GLG) yng ngorsaf ynni niwclear Trawsfynydd). Fodd bynnag, nid yw storio parhaus yn opsiwn gwaredu ac nid yw'n dileu'r angen am ymyrryd gan genedlaethau'r dyfodol. Wrth gwrs, cyfrifoldeb pob gweinyddiaeth yn y DU yw penderfynu pa bolisi fydd orau i anghenion y bobl y mae'n eu gwasanaethu. Ar ôl adolygu'r dystiolaeth sydd ar gael iddi mae Llywodraeth Cymru o'r farn mai opsiwn gwaredu parhaol yw'r opsiwn gorau i Gymru o ran bodloni'r gofyniad i ddiogelu cenedlaethau'r dyfodol a sicrhau tegwch sy'n pontio'r cenedlaethau drwy gymryd camau yn awr ac felly beidio â throsglwyddo'r cyfrifoldeb am benderfyniadau ar waredu gwastraff i genedlaethau'r dyfodol.
- d. *Roedd rhai ymatebion o'r farn gan fod gwastraff yn cael ei storio'n ddiogel ar hyn o bryd ac am y dyfodol rhagweladwy nad oedd angen mabwysiadu polisi ar gyfer gwaredu.*
- e. Er bod GUA a gweddillion tanwydd yn cael eu storio'n ddiogel ar hyn o bryd ac y gellir gwneud hynny ar gyfer y dyfodol rhagweladwy, bydd GUA a gweddillion tanwydd yn parhau'n niweidiol o bosibl am gannoedd o filoedd o flynyddoedd. Mae hyn y tu hwnt i unrhyw gyfnod y mae modd rhagweld rheolaeth sefydliadol ar ei gyfer, a'r tu hwnt i unrhyw gyfnod y mae modd rhagweld risgiau'n codi o drychinebau naturiol ar ei gyfer, megis llifogydd neu newid yn yr hinsawdd. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y risgiau hyn, a'r rhai sydd o bosibl yn codi yn y dyfodol pell, e.e. chwalfa gymdeithasol, rhyfel neu derfysgaeth yn gallu cael eu lleddfu'n fwy effeithiol gan waredu daearegol yn hytrach na rheoli ar yr wyneb yn barhaus.
- f. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gweld unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd rheoli GUA ar yr wyneb yn barhaus yn cynnig mwy diogel yn yr hirdymor i'r materion hyn o gymharu â gwaredu GUA yn ddaearegol.

⁹ Llywodraeth yr Alban *Scotland's Higher Activity Radioactive Waste Policy 2011*

<http://www.scotland.gov.uk/Topics/Environment/waste-and-pollution/Waste-1/16293/higheractivitywastepolicy/hawpolicy2011>

¹⁰ *Statement on Geological Disposal: The Committee on Radioactive Waste Management's (CoRWM's) recommendations on the benefits of geological waste disposal.* Cyhoeddwyd 25 Gorffennaf 2013

<https://www.gov.uk/government/publications/statement-on-geological-disposal>

- g. *Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y dylai storio ar yr wyneb fod wrth ymyl safle er mwyn lleihau'r pellter y cludir gwastraff ymbelydrol i'r eithaf.*
- h. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylid lleddfu cludo gwastraff ymbelydrol. Serch hynny, efallai y bydd angen cludo gwastraff weithiau er mwyn iddo gael ei brosesu a'i droi'n ffurfiau mwy diogel a sefydlog ar gyfer storio interim, neu, i'w waredu. Felly mae'r gweithgareddau hyn a'r angen i gludo gwastraff yn sicrhau budd cyffredinol. Ceir gweithdrefnau sefydledig ar gyfer cludo gwastraff ymbelydrol a deunyddiau ymbelydrol eraill ac mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod deunyddiau ymbelydrol wedi cael eu cludo'n ddiogel ledled y byd ers dros 60 mlynedd. Caiff y gofynion i gludo deunyddiau ymbelydrol yn ddiogel eu llywodraethu gan safonau rhyngwladol a Chyfarwyddbau Ewropeaidd a'u rhoi ar waith yn neddfwriaeth y DU. Rheoleiddir cludo gwastraff ymbelydrol yn y DU gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear.

2. 9 *Ni ddylid datblygu gwaredu daearegol ar yr adeg hon.*

- a. *Dyweddodd rhai ymatebwyr, gan na chaiff y rhan fwyaf o wastraff o orsafoedd ynni niwclear yng Nghymru ei chynhyrchu nes bod y gorsafoedd ynni presennol yn cael eu datgymalu, na ddylai Llywodraeth Cymru wneud penderfyniad yn awr. Roedd ymatebwyr eraill o'r farn y byddai gwneud penderfyniadau yn awr yn atal cenedlaethau'r dyfodol rhag penderfynu eu hunain sut i ymdrin â phroblem gwastraff ymbelydrol. Roedd rhai ymatebwyr hefyd o'r farn y gallai gwneud penderfyniadau yn awr atal technolegau newydd i reoli neu waredu gwastraff ymbelydrol rhag cael eu datblygu yn y dyfodol.*
- b. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn efallai y bydd gohirio penderfyniad ynghylch mabwysiadu opsiwn gwaredu yn mynd yn groes i ofynion y Gyfarwydddeb Gweddillion Tanwydd a Gwastraff Ymbelydrol¹¹(sy'n ei gwneud yn ofynnol i aelod-wladwriaethau gyflwyno'r adroddiad cyntaf ar weithredu eu rhaglen genedlaethol ym mis Awst 2015). At hynny, mae dull o'r fath yn osgoi cymryd cyfrifoldeb yn awr am y gwastraff a grëwyd gan y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r gorffennol sydd wedi cael budd o'r trydan a gynhyrchwyd a chyfleoedd economaidd y gorsafoedd ynni niwclear presennol. Trafodir pwysigrwydd tegwch sy'n pontio'r cenedlaethau yn ddogfen polisi Llywodraeth Cymru ar reoli a gwaredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd ac mae'n un o themâu canolog y Gyfarwydddeb Gweddillion Tanwydd a Gwastraff Ymbelydrol.
- c. Nid yw mabwysiadu polisi o waredu daearegol yn awr yn atal cenedlaethau'r dyfodol rhag mabwysiadu technolegau newydd os bydd eu buddiannau ar yr adeg honno yn ategu neu'n gorbwyso gwaredu daearegol. Er y bydd dulliau newydd ar gyfer rheoli GUA

¹¹ <http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?qid=1403100988892&uri=CELEX:32011L0070>

a gweddillion tanwydd efallai'n cael eu datblygu yn y dyfodol, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gweld unrhyw dystiolaeth i awgrymu y bydd opsiynau rheoli posibl y dyfodol ar gyfer GUA a gweddillion tanwydd yn osgoi'r angen am waredu daearegol ar gyfer o leiaf rhan o'r stocrestr.

- d. *Roedd rhai ymatebion yn dweud y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi galwadau am foratoriwm ar ddatblygu gwaredu daearegol nes i nifer mawr o'r materion technegol heb eu hateb sy'n gysylltiedig â gwaredu daearegol gael eu hateb.*
- e. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod nifer mawr o faterion (tua 900) wedi'u codi mewn cysylltiad â gwaredu daearegol. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod y datblygwr, RWM¹² Ltd, yn datblygu datrysiad o'r materion hyn. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn na fyddai moratoriwm ar waredu daearegol o ddefnydd ac y byddai ond yn gohirio cyflwyno ateb i reoli GUA a gweddillion tanwydd yn y dyfodol, gan adael penderfyniadau a beichiau i genedlaethau'r dyfodol.
- f. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi y disgwylir ar hyn o bryd bod trafodaethau â chymunedau sydd wedi gwirfoddoli i gynnig lleoliad ar gyfer safle posibl yn debygol o gymryd degawd neu fwy cyn bod angen penderfyniadau terfynol am CGD. Bydd penderfyniadau terfynol ond yn cael eu gwneud ar ôl cynnal archwiliadau safle manwl, gan gynnwys tyllau turio, ar ôl prawf cyhoeddus o gefnogaeth ac ar ôl cyflwyno cais cynllunio manwl. Bydd hyn yn rhoi cyfnod helaeth pan all y datblygwr fynd i'r afael â materion cyffredinol.
- g. Mae llawer o'r materion a godwyd yn benodol i'r safle a gellir mynd i'r afael â hwy dim ond yn ystod archwiliad o safle neu safleoedd unigol. Mae Llywodraeth Cymru yn hyderus na fydd y rheoleiddwyr yn caniatáu datblygu CGD oni bai bod y pryderon a godwyd, y rhai cyffredinol a'r rhai sy'n benodol i'r safle, wedi'u datrys yn foddhaol cyn ei ddatblygu.

2. 10 Dewisiadau eraill ar gyfer rheoli GUA a gweddillion tanwydd

- a. *Roedd rhai ymatebion o'r farn y gellid gwaredu rhai mathau o wastraff mewn cyfleusterau wrth ymyl yr wyneb. Roedd rhai ymatebion o'r farn y dylid ystyried opsiynau gwaredu eraill yn ogystal â gwaredu daearegol.*
- b. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn y gallai dulliau eraill heblaw am waredu daearegol fod yn addas ar gyfer rhywfaint o GUA, gan

¹² Radioactive Waste Management Limited (RWM, y datblygwr). RWM yw is-gwmni sy'n eiddo llwyr i NDA, sy'n gyfrifol am weithredu'r rhaglen ddiogel, gynaliadwy, sy'n dderbyniol i'r cyhoedd daearegol waredu.

gynnwys gwaredu wrth ymyl yr wyneb neu waredu drwy dyllau turio. Byddai'r gofyniad yn parhau y byddai angen i'r rheoleiddwyr fod yn fodlon ar achos diogelwch ar gyfer dulliau gwaredu GUA a gweddillion tanwydd. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gweld unrhyw dystiolaeth y byddai dulliau rheoli neu waredu eraill ar gyfer GUA a gweddillion tanwydd yn darparu ateb ar gyfer stocrestr gyfan.

- c. *Roedd rhai ymatebion yn galw am ailbrosesu gweddillion tanwydd.*
- d. Nid yw Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am y polisi ar ailbrosesu gweddillion tanwydd. Fodd bynnag, bydd y fath ailbrosesu'n dal i arwain at gynnyrch gwastraff y bydd angen eu gwaredu'n ddaearogol.

2. 11 *Bydd gwastraff gorsafoedd ynni niwclear newydd yn fwy anodd ei waredu*

- a. *Pwysleisiodd rhai gohebwyrs y byddai gwastraff o orsafoedd ynni niwclear newydd yn fwy ymbelydrol ac yn ffisegol boethach na gwastraff o'r gorsafoedd ynni niwclear presennol gan ei gwneud yn fwy anodd ei reoli a'i waredu.*

- b. Cyngor CoRWM ar y pwynt hwn yw:

"CoRWM does not think that the nature of the fuel will present a problem though, of course, increasing the size of the programme will increase the amount of spent fuel and waste. The spent fuel is likely to be similar in character to that discharged from Sizewell B at the same time, i.e. increases in LWR burn-up have tended to be reflected across the whole fleet. CoRWM has previously commented that "there is considerable international experience of dry storage of PWR fuel to draw on, particularly in the USA, and there has been substantial R&D in a number of countries on geological disposal of PWR fuel"¹³.

However, while CoRWM does not think there is an issue over the suitability of new build waste for safe storage and eventual disposal, it does acknowledge that there could be an issue over space and capacity for disposal. This issue will need to be resolved at the time when the inventory for a proposed GDF is being considered."

- c. Mae Llywodraeth y DU yn ffafrio datblygu un CGD ar gyfer y stocrestr gyfan o GUA sydd i'w waredu. Mae p'un a fydd hyn yn bosibl yn debygol o ddibynnu ar b'un a oes digon o ddaearog addas ar gael mewn safle posibl lle mae cymuned wedi gwirfoddoli i gynnig lleoliad ar gyfer safle. Bydd ystyriaeth o allu daearogol unrhyw safle arfaethedig yn rhan o'r achos diogelwch.

¹³ CoRWM Doc 2500, *Interim Storage of Higher Activity Wastes and the Management of Spent Fuels, Plutonium and Uranium*, paragraff 4.19.

2. 12 Polisi Llywodraeth Cymru ar orsafoedd ynni niwclear

- a. *Roedd nifer sylweddol o ymatebion yn gwrthwynebu polisi Llywodraeth Cymru o gefnogi gorsafoedd ynni niwclear newydd ar safleoedd presennol yng Nghymru.*
- b. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod amrywiaeth eang o farn ar ynni niwclear ac ar orsafoedd ynni niwclear newydd a chafodd y mater hwn ei godi hefyd yn yr ymatebion a gafwyd i'r cais gwreiddiol am dystiolaeth gan Lywodraeth Cymru. Cydnabu Llywodraeth Cymru yn y papur ymgynghori y bydd gorsafoedd ynni niwclear newydd, gan gynnwys yr un a gynigir yn Wylfa Newydd, yn cynhyrchu GUA a gweddillion tanwydd. Un o ysgogwyr yr adolygiad o bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli GUA a gweddillion tanwydd yn y dyfodol yw'r angen am gysondeb rhwng ei chefnogaeth i orsafoedd ynni niwclear ar safleoedd presennol yng Nghymru a'i pholisi ar reoli'r gwastraff y byddant yn ei gynhyrchu. Felly, nid yw Llywodraeth Cymru, fel y mae rhai ymatebion yn nodi, yn ceisio gwahanu'r materion hyn.
- c. Fodd bynnag, hyd yn oed os na chaiff unrhyw orsafoedd ynni niwclear newydd eu hadeiladu mae gwaddol sylweddol o wastraff ymbelydrol eisoes wedi cronni dros y 60 mlynedd diwethaf, y bydd angen ei waredu yn y pen draw er mwyn diogelu buddiannau cenedlaethau'r dyfodol. Mae tegwch sy'n pontio cenedlaethau yn gofyn am waredu'r gwastraff hwn mewn ffyrdd a fydd yn osgoi'r angen i genedlaethau'r dyfodol fod yn rhan o'i reoli.
- d. Mae cefnogaeth ar gyfer gorsafoedd ynni niwclear newydd hefyd yn rhoi cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru i fabwysiadu polisi sy'n caniatáu rheoli a gwaredu GUA a gweddillion tanwydd yn y dyfodol y bydd yn eu cynhyrchu a fydd yn osgoi'r angen i genedlaethau'r dyfodol fod yn rhan o'u rheoli.
- e. Felly mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu polisi ar gyfer gwaredu GUA a gweddillion tanwydd yn ddaearegol. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd gwaredu daearegol, wedi'i reoleiddio'n iawn, yn darparu llwybr gwaredu diogel ar gyfer gwastraff gorsafoedd ynni niwclear newydd a gwastraff gwaddol.
- f. Nodir rhesymau Llywodraeth Cymru dros gefnogi gorsafoedd ynni niwclear newydd yn ei datganiad polisi 'Ynni Cymru: Newid Carbon Isel' ¹⁴sy'n cydnabod pwysigrwydd gorsaf ynni niwclear newydd yn yr Wylfa o ran cynnig ffynhonnell gyson a dibynadwy o ynni carbon isel er mwyn ategu'r amrywiaeth o ddatblygiadau ynni adnewyddadwy yng Nghymru. Byddai ei datblygiad hefyd yn cynnig buddiannau hirdymor sylweddol i economi Cymru.

¹⁴ Llywodraeth Cymru, *Ynni Cymru: Newid Carbon Isel*, Llywodraeth Cymru 2012
llyw.cymru/topics/environmentcountryside/energy/energywales/?lang=cy

- g. *Roedd rhai ymatebion yn annog Llywodraeth Cymru i fabwysiadu'r un polisi â'r Almaen.*
- h. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod hyn yn gyfeiriad at benderfyniad Llywodraeth yr Almaen i ddod â'r o ynni niwclear i ben. Am y rhesymau a roddwyd uchod, nid yw Llywodraeth Cymru o'r farn bod y polisi hwn yn briodol i Gymru. Fodd bynnag, er bod Llywodraeth yr Almaen yn cynnig peidio â defnyddio ynni niwclear, mae hefyd yn werth nodi ei bod yn datblygu gwaredu daearegol ar gyfer rheoli ei gwastraff ymbelydrol yn y dyfodol.

2. 13 Risgiau ariannol i Lywodraeth Cymru

- a. *Roedd rhai ymatebion eraill o'r farn y byddai mabwysiadu gwaredu daearegol yn golygu bod Llywodraeth Cymru yn wynebu risg o feichiau ariannol yn y dyfodol.*
- b. Mae'n bolisi gan Lywodraeth y DU, a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, mai'r gweithredwr ddylai fod yn gyfrifol am gostau datgymalu cyfleusterau niwclear a gwaredu gweddillion tanwydd a gwastraff, gan gynnwys datgomisiynu gwastraff, y byddant yn eu cynhyrchu¹⁵. Ariennir cost rheoli a gwaredu gwastraff gwaddol gan Lywodraeth y DU drwy'r Awdurdod Datgomisiynu Niwclear a Radioactive Waste Management Ltd (RWM). Mae hyn yn cynnwys cost y rhaglen Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel (MRWS) ac unrhyw gostau ymgysylltu â chymunedau sy'n ystyried gwirfoddoli boed hynny yng Nghymru neu yn Lloegr. Felly ni fydd mabwysiadu polisi ar gyfer gwaredu daearegol yn golygu y bydd Llywodraeth Cymru yn wynebu mwy o faich ariannol na risg o fwy o feichiau ariannol.
- c. *Roedd rhai ymatebion yn pryderu am gost rheoli gwastraff ymbelydrol am gannoedd o filoedd o flynyddoedd.*
- d. Fel y nodwyd ym mharagraff 2.13b, ni fydd Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am gostau'r rhaglen gwaredu daearegol. Fodd bynnag, o ran costau rheoli GUA, mae storio ar yr wyneb yn barhaus yn creu angen i reoli gwastraff, gan gynnwys ail-becynnu gwastraff ac o bosibl ailadeiladu storfeydd yn y tymor hwy. Gyda gwaredu daearegol, ni ddisgwylir rhagor o gostau ar ôl i'r CGD gael ei selio.
- e. *Roedd rhai ymatebion yn pryderu y gallai Llywodraeth Cymru wynebu rhwymedigaethau ariannol pe bai damwain mewn cyfleuster niwclear yng Nghymru.*

¹⁵ <https://www.gov.uk/government/consultations/revised-funded-decommissioning-programme-guidance-for-new-nuclear-power-stations>

- f. Y DU yw'r Parti Cytundebol yng Nghonfensiwn Paris 1960 ar Rwymedigaeth Trydydd Parti Niwclear¹⁶. Mae'r Confensiwn yn nodi'r fframwaith ar gyfer ymdrin ag iawndal yn sgil damwain niwclear. Gweithredir y Confensiwn yn y DU gan Ddeddf Gosodiadau Niwclear 1965 sy'n gosod rhwymedigaeth lem a chynhwysol ar y gweithredwr i dalu am gostau difrod niwclear. At hynny, o dan y gyfraith mae'n ofynnol i'r gweithredwr sicrhau bod yswiriant ar waith rhag rhwymedigaethau. Mae gan Senedd y DU ddisgresiwn i dalu iawndal y tu hwnt i derfynau rhwymedigaeth y gweithredwr. Os felly, Llywodraeth y DU, yn hytrach na Llywodraeth Cymru, fydd yn gyfrifol am y costau.

2. 14 *Gorfodi gwaredu daearegol*

- a. *Roedd rhai ymatebion yn pryderu y bydd gwaredu daearegol yn cael ei orfodi yng Nghymru.*
- b. Wrth fabwysiadu polisi ar gyfer gwaredu daearegol, mae Llywodraeth Cymru yn glir y gellir datblygu dim ond datblygu hyn yng Nghymru gyda dull drwy wirfoddoli yn dilyn parodrwydd i gymryd rhan mewn trafodaethau â chymuned neu gymunedau sydd wedi'u galluogi ac â'r holl wybodaeth angenrheidiol i'w galluogi i gymryd rhan yn hyddysg.
- c. *Roedd rhai ymatebion, gan gynnwys y rhai sy'n cefnogi ymgyrch Ardal y Llynnoedd Heb Ymbelydredd, yn pryderu bod Llywodraeth Cymru yn dymuno gwaredu gwastraff ymbelydrol yn Ardal y Llynnoedd. Mynegwyd pryderon tebyg am Lywodraeth Cymru yn ceisio gwaredu gwastraff ymbelydrol ar Ynys Môn.*
- d. Fel y nodwyd uchod, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r dull drwy wirfoddoli i leoli CGD lle mae cymunedau a allai gynnig lleoliad yn barod i gymryd rhan mewn trafodaethau, a hynny heb ymrwymiad ymlaen llaw. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi nodi nac ystyried safleoedd neu ardaloedd, yng Nghymru neu'r tu allan iddi, ar gyfer CGD.

2. 15 *Diffyg trafodaeth gyhoeddus am ymestyn gwaredu daearegol i wastraff gorsafoedd ynni niwclear newydd.*

- a. *Roedd rhai ymatebion o'r farn nad ymdriniwyd â phryderon a fynegwyd gan CoRWM1 am y materion moesegol sy'n codi o waredu gwastraff gorsafoedd ynni niwclear newydd yn ddaearegol gan ymgynghoriad cyhoeddus.*

¹⁶ Confensiwn Paris ar Rwymedigaeth Trydydd Parti ym Maes Ynni Niwclear 1960 a diwygiadau canlyniadol gan gynnwys Confensiwn Atodol 1963 Brwsel.

- b. Mae CoRWM wedi cadarnhau bod gwaredu daearegol sy'n briodol ar gyfer rheoli GUA a gweddillion tanwydd yn y tymor hir o orsafoedd ynni niwclear newydd. O ran trafodaeth gyhoeddus am y materion hyn, mae ymestyn y rhaglen gwaredu daearegol gan Lywodraeth y DU i wastraff o orsafoedd ynni niwclear newydd yn rhagflaenu polisi Llywodraeth Cymru o gefnogi gorsafoedd ynni niwclear newydd ar safleoedd presennol yng Nghymru a'r adolygiad o bolisi Llywodraeth Cymru ar reoli a gwaredu GUA a gweddillion tanwydd. Fodd bynnag, yn y cais am dystiolaeth a'r ymgynghoriad cyhoeddus ar reoli a gwaredu GUA a gweddillion tanwydd yn y dyfodol, mae Llywodraeth Cymru wedi'i gwneud yn glir, os bydd cymuned yng Nghymru'n dymuno cael trafodaethau am y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD, bydd y trafodaethau hyn, o leiaf ar y dechrau, yn seiliedig ar y stocrestr gyfan ar gyfer gwaredu, gan gynnwys gwastraff sy'n deillio o raglen o orsafoedd ynni niwclear newydd.
- c. Ymhellach, mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod yr adolygiad o'r prosesau ar gyfer lleoli CGD yr ymglymerir ag ef ar hyn o bryd gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, gan gynnwys yr ymgynghoriad ar ddiwedd 2013, i gyd wedi bod yn amlwg yn seiliedig ar gynnwys GUA a gweddillion tanwydd o orsafoedd ynni niwclear newydd yn y stocrestr ar gyfer gwaredu.

2. 16 Anghydbwysedd rhwng gwastraff yng Nghymru a gwastraff yn Lloegr

- a. *Amlygodd rhai ymatebion yr anghydbwysedd rhwng GUA a gweddillion tanwydd yn Lloegr (yn Sellafield yn bennaf), a GUA ar hyn o bryd yng Nghymru.*
- b. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod llawer mwy o GUA a gweddillion tanwydd ar hyn o bryd yn cael eu storio neu'n cael eu prosesu yn Lloegr o'u cymharu â'r GUA sydd ar hyn o bryd yn cael ei storio yng Nghymru. Nodwyd hyn yn Nhabl 1 yn Atodiad 1 i ddogfen polisi Llywodraeth Cymru. Disgwylir i fwy o wastraff godi yn Lloegr o ganlyniad i ddatgomisiynu gorsafoedd ynni niwclear, hynny yw gorsafoedd ynni niwclear presennol a'r rhai arfaethedig, nag yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod bod elfen ansoddol i'r gwahaniaeth hwn: nid oes gwastraff lefel uchel na gweddillion tanwydd yn cael eu storio yng Nghymru ar hyn o bryd, ond disgwylir y bydd gweddillion tanwydd yn cael eu storio yn Wylfa Newydd.
- c. Yn yr ymgynghoriad a ddaeth i ben ym mis Ionawr 2015, ac yn y ddogfen polisi a'r ymgynghoriad a gyhoeddir bellach ar y prosesau ar gyfer rhoi gwaredu daearegol ar waith, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir y byddai trafodaethau â chymunedau sydd wedi gwirfoddoli i gynnig lleoliad ar gyfer safle CGD posibl yng Nghymru, o leiaf ar y dechrau, yn seiliedig ar y stocrestr ar gyfer gwaredu, a

fyddai'n cynnwys GUA a gweddillion tanwydd o Loegr (a GUA o Ogledd Iwerddon). Gall y rhagdybiaeth hon newid gan ddibynnu ar addasrwydd safle penodol ar gyfer derbyn y stocrestr gyfan, neu pe bai mwy nag un gymuned wirfoddol bosibl yn cymryd rhan mewn trafodaethau. Mae Llywodraeth Cymru yn glir y gellir cyflwyno gwaredu daearegol yng Nghymru dim ond yn seiliedig ar bartneriaeth barod â chymuned a all gynnig lleoliad posibl. Bydd Llywodraeth Cymru am i unrhyw gymuned sy'n ceisio trafodaethau gael gwybodaeth glir, gynnar am yr holl faterion pwysig cysylltiedig, a bydd hyn yn cynnwys stocrestr y gwastraff arfaethedig ar gyfer ei waredu mewn unrhyw safle. Bydd hyn yn galluogi cymunedau lletyol gwirfoddol posibl i benderfynu a ydynt am ddilyn trafodaethau.

2. 17 Llywodraeth Cymru ddylai fod yn gyfrifol am wastraff Cymru

- a. *Roedd rhai ymatebwyr o'r farn mai Llywodraeth Cymru a ddylai fod yn gyfrifol am yr holl wastraff ymbelydrol a gweddillion tanwydd a gynhyrchir yng Nghymru gan gynnwys y gwastraff sydd eisoes yn cael ei gludo i'w reoli yn Lloegr.*
- b. Cred Llywodraeth Cymru fod y farn hon yn camddeall sefyllfa Llywodraeth Cymru yn y rhaglen Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel. Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb datganoledig am bolisi sy'n ymwneud â gwaredu gwastraff ymbelydrol yng Nghymru. Nid yw cyfrifoldeb am bolisi yn golygu bod angen i wastraff a gynhyrchir o ganlyniad i weithgareddau yng Nghymru gael ei waredu yng Nghymru, er enghraifft, mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi strategaethau; pedair gwlad y DU ar gyfer rheoli a gwaredu gwastraff ymbelydrol lefel isel (GLI). Yr unig wastraff ymbelydrol a waredir yng Nghymru ar hyn o bryd yw ychydig o wastraff ymbelydrol lefel isel iawn (fel arfer gwisgoeddd diogelu, clytiau ac ati sydd â meintiau bach iawn o halogi ymbelydrol) y gellir ei anfon e.e. i safleoedd tirlenwi trefol i'w waredu o dan drwydded amgylcheddol. Ar hyn o bryd, caiff pob math arall o GLI ei anfon i Storfa Gwastraff Lefel Isel y DU ger Drigg yn Cumbria, neu safleoedd trin neu waredu eraill yn Lloegr sydd â thrwyddedau addas.
- c. Yn yr un modd, caiff GUA a gynhyrchir o ganlyniad i weithgareddau yng Nghymru (megis gwastraff ymbelydrol lefel ganolraddol (GLG) sy'n cael ei storio ar hyn o bryd yn y storfa gwastraff lefel canolraddol yn Nhrawsfynydd) ei anfon i'w waredu i gyfleuster yn y DU yn y pen draw. Yn dibynnu ar lwyddiant trafodaethau gyda chymuned sy'n barod i gynnig lleoliad a chymeradwyaeth achos diogelwch gan reoleiddwyr, gallai hyn fod yng Nghymru, yn Lloegr neu yng Ngogledd Iwerddon, a byddai CGD yn derbyn gwastraff o Gymru a Lloegr a'r symiau bach o GLG a gynhyrchir o ganlyniad i weithgareddau yng Ngogledd Iwerddon.

- d. *Roedd rhai gohebwyd o'r farn y dylai fod yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gael gwared ar wastraff Cymru.*
- e. Fel y trafodwyd uchod, mae Llywodraeth Cymru yn rhan o raglen ar gyfer cyflwyno gwaredu daearegol ar draws Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cefnogi dull drwy wirfoddoli i gyflwyno trafodaethau fisa gwaredu daearegol. Byddai gofyniad ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno CGD yng Nghymru'n anghyson â'r ddwy ystyriaeth hyn.

Casgliad

- 2. 18 Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi nad oedd y rhan fwyaf o'r ymatebion yn cefnogi ei dewis opsiynau yn yr ymgynghoriad ar gyfer mabwysiadu polisi gwaredu ar gyfer GUA a gweddillion tanwydd yn seiliedig ar waredu daearegol. Fodd bynnag, ni chynigiodd yr ymatebion opsiwn gwaredu hyfyw arall ar gyfer GUA a gweddillion tanwydd. Nid opsiwn gwaredu yw storio ar yr wyneb neu ger yr wyneb yn y tymor hir, fel y cynigiwyd mewn llawer o ymatebion, ac nid yw Llywodraeth Cymru yn fodlon bod hyn yn briodol ar gyfer anghenion pobl Cymru ac ni fydd yn bodloni gofynion y Gyfarwydddeb Gweddillion Tanwydd a Gwastraff Ymbelydrol.
- 2. 19 Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi nodi bod y rhan fwyaf o'r ymatebion yn ei hannog i wrthdroi ei pholisi yn yr ymgynghoriad ar gyfer mabwysiadu polisi o gefnogaeth ar gyfer y gorsafoedd ynni niwclear newydd, gan gynnwys yr orsaf bŵer niwclear newydd a gynllunnir ar gyfer Wylfa Newydd ar Ynys Môn. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan yn flaenorol bod ei rhesymau ar gyfer cefnogi gorsafoedd ynni niwclear newydd ar safleoedd presennol yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd gorsafoedd ynni niwclear newydd fel Wylfa Newydd yn cynhyrchu GUA a gweddillion tanwydd ac y bydd angen llwybr gwaredu ar eu cyfer.
- 2. 20 Noda Llywodraeth Cymru hefyd, hyd yn oed os na chaiff unrhyw orsafoedd ynni niwclear newydd eu hadeiladu fod gwaddol sylweddol o wastraff ymbelydrol eisoes wedi cronni dros y 60 mlynedd diwethaf, y bydd angen ei waredu yn y pen draw er mwyn diogelu buddiannau cenedlaethau'r dyfodol.
- 2. 21 Roedd llawer o ymatebion hefyd yn cefnogi gohirio penderfyniad am waredu daearegol neu'n annog moratoriwm ar ddatblygu gwaredu daearegol. Nid yw Llywodraeth Cymru yn o'r farn bod gohirio penderfyniadau ar waredu GUA a gweddillion tanwydd yn bodloni gofynion cydraddoldeb pontio'r cenedlaethau. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd storio tymor hir, heb ddarpariaeth ar gyfer gwaredu, yn rhoi beichiau parhaus ar genedlaethau'r dyfodol i ail-becynnu gwastraff ac o bosibl i ailadeiladu storfeydd a fydd, ynddo'i hun, yn creu risg uwch.

2. 22 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd dod o hyd i CGD daearegol, ei adeiladu, ei weithredu a'i gau'n digwydd dros sawl cenhedlaeth. Fodd bynnag, mae gohirio penderfyniad i ddechrau'r broses ond yn gwrthio'r penderfyniad hwnnw ar genedlaethau'r dyfodol. Nid yw mabwysiadu gwaredu daearegol yn atal cenedlaethau'r dyfodol rhag rhoi trefniadau rheoli eraill ar waith ar gyfer GUA a gweddillion tanwydd, er ei bod yn debygol, pa ddulliau newydd bynnag a fydd efallai'n codi yn y dyfodol, y bydd angen gwaredu daearegol fel rhan o'r broses.
2. 23 Am y rhesymau hyn, wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus, a thystiolaeth arall sydd ar gael iddi, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi datganiad polisi sy'n mabwysiadu polisi ar gyfer gwaredu GUA a gweddillion tanwydd, yn seiliedig ar waredu daearegol, ac yn dibynnu ar barodrwydd cymunedau i ddechrau trafodaethau, heb ymrwymiad ymlaen llaw, am y posibilrwydd o gynnig lleoliad ar gyfer CGD.

Camau Nesaf

Yn sgil dadansoddi'r ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei phenderfyniad polisi i fabwysiadu polisi gwaredu ac mai gwaredu daearegol fydd y polisi hwnnw. Er mwyn rhoi eglurder i bobl Cymru ynghylch beth fyddai hyn yn ei olygu yn ymarferol a'r systemau cysylltiedig, mae ymgynghoriad pellach ar y prosesau wedi'i lansio ar yr un pryd.

Cyhoeddir yr ymgynghoriad ar dudalennau ymgynghori Llywodraeth Cymru¹⁷ a bydd yn para am 12 wythnos.

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch, neu gopi o'r ddogfen ymgynghori, cysylltwch â'r canlynol:

Y Gangen Ymbelydredd ac Atal Llygredd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: RPPmailbox@wales.gsi.gov.uk

¹⁷ www.wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/disposing-of-higher-activity-radioactive-waste/?lang=cy

Atodiad 1

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Cwestiwn 1. Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu ei pholisi presennol ar waredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd a gweddillion tanwydd y datgenir eu bod yn wastraff. Wrth gynnal yr adolygiad hwn, mae gan Lywodraeth Cymru dri opsiwn, sef:

- a ddylai geisio mabwysiadu polisi ar gyfer gwaredu GUA a gweddillion tanwydd os datgenir eu bod yn wastraff?
- a ddylai gadw ei safbwynt niwtral presennol lle nad yw'n cefnogi nac yn gwrthwynebu opsiwn gwaredu?
- a ddylai fabwysiadu polisi sy'n gwrthwynebu opsiwn gwaredu ar gyfer GUA a gweddillion tanwydd y datgenir eu bod yn wastraff?

Rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 2. A ddylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu polisi ar gyfer gwaredu daearegol i reoli gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd a gweddillion tanwydd y datgenir eu bod yn wastraff yn yr hirdymor?

Rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 3. Os na fydd Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu polisi gwaredu daearegol a ddylai mabwysiadu llwybr gwaredu amgen ar gyfer gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd a gweddillion tanwydd y datgenir eu bod yn wastraff? Os felly, pa bolisi y dylai ei fabwysiadu?

Rhowch eich rhesymau.

Cwestiwn 4. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer gwaredu gwastraff ymbelydrol uwch ei actifedd a gweddillion tanwydd y datgenir eu bod yn wastraff?

Atodiad 2

ADOLYGIAD CORWM O'R YMATEBION I YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR WAREDU GWASTRAFF YMBELYDROL UWCH EI ACTIFEDD

CoRWM yw cynghorydd annibynnol Llywodraeth Cymru ar reoli a gwaredu gwastraff ymbelydrol. Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio cyngor CoRWM wrth lunio ei pholisi. Mae ymatebion i'r ymgynghoriad blaenorol wedi dehongli gwaith cynharach CoRWM mewn ffyrdd nad ydynt yn cyfateb i ddealltwriaeth Llywodraeth Cymru. Felly, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio sylwadau CoRWM ar yr ymatebion hyn. Nodir sylwadau CoRWM isod.

CYFLWYNIAD

1. Lluniwyd y papur hwn mewn ymateb i gais gan Lywodraeth Cymru i adolygu'r ymatebion hynny i'w *Ymgynghoriad ar Waredu Gwastraff Ymbelydrol Uwch ei Actifedd* sy'n cyfeirio'n benodol at CoRWM.
2. Dangosir ein crynodebau o'r pwyntiau a wnaed gan ymatebwyr mewn print trwm gyda'n sylwadau ni yn dilyn mewn ffont arferol.

YMATEB FFORWM AWDURDODAU LLEOL DI-NIWCLEAR CYMRU

3. Mae'r Awdurdodau Lleol Di-Niwclear yn dechrau gyda sylwadau ar sylwadau Llywodraeth Cymru ar eu hymateb i'r Cais am Dystiolaeth sy'n cyfeirio'n uniongyrchol at gais Llywodraeth Cymru i CoRWM. Gan ystyried pob un o'r rhain yn ei dro:
4. Mae Pwynt 1 Llywodraeth Cymru yn ymwneud â'r cais i CoRWM wneud sylwadau ar natur y ddamwain yn y Gwaith Peilot Ynysu Gwastraff (WIPP). Mae'r Awdurdodau Lleol Di-Niwclear yn treulio peth amser yn manylu ar natur eu pryderon a all gael eu crynhoi gan eu brawddeg agoriadol yn yr adran hon: "Mae'r pwynt a bwysleisir gan yr Awdurdodau Lleol Di-Niwclear ... yn ymwneud â'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â gwneud achos diogelwch". Er mwyn ategu eu dadl, noda'r Awdurdodau Lleol Di-Niwclear fod "CoRWM 1 ei hun wedi cyfeirio at 'yr ansicrwydd ynghylch gweithredu gwaredu daearegol'

ac, felly, yr angen am ‘ymrwymiad parhaus i ddulliau o waredu gwastraff yn ddiogel sy'n diogelu rhag risg o oedi neu fethiant yn y rhaglen storio”.

5. Daw'r brawddegau hyn o Argymhelliad 2 Dogfen 700 CoRWM. Nid yw CoRWM erioed wedi dweud y dylid bwrw ymlaen â gwaredu daearegol ar ei ben ei hun ac mae bob amser wedi argymhell y dylid parhau â rhaglen storio interim gadarn. Y rheswm dros hyn yw'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â gweithredu rhaglen gwaredu daearegol. Nid yw hyn yn cyfateb i'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig â gwneud achos diogelwch ac ni all yr Awdurdodau Lleol Di-Niwclear ddibynnu ar argymhelliad CoRWM i ategu eu pryderon.
6. **O ran y ddamwain yn WIPP, “noda'r Awdurdodau Lleol Di-Niwclear na allai CoRWM roi diagnosis cwbl hyddysg o'r rhesymau dros y gollyngiad yn WIPP i Lywodraeth Cymru”.**
7. Mae'n anffodus mai dim ond rhan o ymateb CoRWM i'r cais hwn am wybodaeth y dewisodd yr Awdurdodau Lleol Di-Niwclear ei dyfynnu am fod yr ymateb llawn, a nodir isod, yn rhoi safbwynt mwy ystyriol o arwyddocâd y ddamwain hon:

*“Yng nghyfarfod CoRWM a gynhaliwyd yn Thurso ym mis Gorffennaf, rhoddodd aelod o'r Pwyllgor ddiweddariad cryno ar yr adroddiadau cyhoeddus a luniwyd yn sgil darganfod bod ymbelydredd wedi gollwng yng nghyfleuster WIPP ym Mecsico Newydd a'r ymateb gan y cyfryngau ac eraill. Cafodd CoRWM ar ddeall fod y gollyngiad yn WIPP yn cael ei briodoli i faterion gweithredol ar hyn o bryd. Gwaith cyflyru gwastraff amhriodol yw'r achos mwyaf tebygol. Ystyrir mai'r llinellau rheoli gwael yw'r rheswm dros y camgymeriad. **Mae'r digwyddiad wrthi'n cael ei adolygu ac ni all CoRWM roi diagnosis cwbl hyddysg o'r rhesymau dros y gollyngiad ond nid oes unrhyw beth i awgrymu unrhyw fethiant sylfaenol yn egwyddor na chynllun gwaredu daearegol yn WIPP.**”*
(ychwanegwyd pwyslais)

8. Noda CoRWM fod Adran Ynni'r UD wedi cyhoeddi adroddiad cynhwysfawr i'r gollyngiad yn WIPP yn ddiweddar (16 Ebrill 2015), sy'n cadarnhau iddo gael ei achosi gan fethiannau gweithredol, yn bennaf ar ran cynhyrchwyr y gwastraff (http://www.wipp.energy.gov/Special/AIB_WIPP%20Rad_Event%20Report_Phase%20II.pdf). Daeth y bwrdd i'r casgliad mai “achos uniongyrchol y ddamwain hon oedd adwaith ecothermig deunyddiau anghydnaws yn nrwm gwastraff LANL 68660 a gychwynnodd broses ffoi thermol, a arweiniodd at orbwyseddu'r drwm, torri'r drwm a gollwng rhan o gynnwys y drwm (nwyon llosgadwy, gwastraff ac amsugnydd yn seiliedig ar wenith) i safle tanddaearol WIPP.” Wrth gwrs, byddai cynnal ei ymchwiliad ei hun i'r digwyddiad yn WIPP ymhell y tu hwnt i gylch gwaith CoRWM. Felly, mae anallu CoRWM i roi ‘diagnosis cwbl hyddysg’ i Lywodraeth Cymru ond yn adlewyrchu'r ffaith, ar y pryd, nad oedd gan hyd yn oed Adran Ynni'r UD, sy'n bennaf cyfrifol am WIPP, ddiagnosis o'r fath.

9. Dyfynnir sylwadau CoRWM ar Fynydd Yucca hefyd: *'Methodd y CGD arfaethedig ym mynydd Yucca yn wleidyddol. Ni wnaed unrhyw ddyfarniad ffurfiol ar achos diogelwch Mynydd Yucca ac, felly, ni ellir dweud iddo fethu ar sail diogelwch'*. Cytunodd yr Awdurdodau Lleol Di-Niwclear â CoRWM fod y penderfyniad yn un gwleidyddol ond ânt ymlaen i ddweud fod methiant y prosiect yn anochel o'r cychwyn am fod y safle wedi'i ddewis am resymau gwleidyddol yn hytrach na rhesymau gwyddonol a'i fod felly yn "dangos y problemau a achosir drwy ddibynnu ar rwystrau wedi'u peiriannu yn hytrach na rhwystrau daearegol".
10. Cred CoRWM fod hyn yn gorsymleiddio'r materion ac nad yw'n adlewyrchu'r broses ar gyfer gweithredu gwaredu daearegol yn y DU. Fel y nododd CoRWM yn y frawddeg yn dilyn yr un a ddyfynnwyd, *'er mwyn cymeradwyo CGD o dan reoliadau'r DU byddai angen dangos achos diogelwch cadarn'*. Byddai'r achos diogelwch yn dibynnu ar rwystrau daearegol a rhwystrau wedi'u peiriannu. At hynny, yn wahanol i WIPP a Mynydd Yucca, mae proses Llywodraeth y DU o ddewis safleoedd yn seiliedig ar egwyddor gwirfoddoli gyda'r gymuned yn cadw'r Hawl y Dynnu'n Ôl. Mae CoRWM hefyd wedi dweud wrth Lywodraeth Cymru yn flaenorol ei fod *"wedi pwysleisio dro ar ôl tro fod yn rhaid i ddaeareg gael ei hystyried yng nghyd-destun yr achos diogelwch ac fel un elfen sy'n cyfrannu ato. Mae'n anochel y bydd hyn yn cynnwys ystyried ffactorau daearegol a pheirianyddol ac, os na ellir llunio achos diogelwch mewn lleoliad daearegol penodol (h.y. nid yw'r ddaeareg yn ddigon 'da'), daw hyn yn amlwg"*.
11. Mae pwynt 2 Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at bryderon Llywodraeth Cymru nad yw sylwadau'r Awdurdodau Lleol Di-Niwclear ar argymhellion CoRWM ynghylch addasrwydd gwaredu fel y'i cymeradwyir gan CoRWM 2 yn cyd-fynd â dehongliad Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd i CoRWM roi eglurhad.
12. Noda'r Awdurdodau Lleol Di-Niwclear nad yw'n glir pa ran o'u cyflwyniad y cyfeirir ati ond ânt ymlaen i ddweud *"Dywed CoRWM y bydd yn ysgrifennu at yr Awdurdodau Lleol Di-Niwclear ond nid oes unrhyw beth wedi'i dderbyn ganddo"*.
13. Roedd ymateb CoRWM i Lywodraeth Cymru fel a ganlyn: *'Ymddengys fod yr Awdurdodau Lleol Di-Niwclear wedi camddeall safbwynt CoRWM ac wedi cam-gyfleu safbwynt CoRWM. Rydym wedi ysgrifennu at CoRWM yn gofyn iddo egluro ei safbwynt. Ceir copi o'n neges e-bost yn Atodiad 1'*. Anfonwyd y neges e-bost y cyfeirir ati gan Laura Butchins (ysgrifenyddiaeth CoRWM) ar 11 Mehefin 2014. Mae'r cyfeiriad e-bost y'i hanfonwyd iddo yn gyfeiriad cyswllt cydnabyddedig ar gyfer CoRWM a hwn yw'r un a nodir ar ei wefan ei hun. Atodir copi fel Atodiad i'r ddogfen hon.
14. Yn bwysicach na hynny, aiff yr Awdurdodau Lleol Di-Niwclear ymlaen i wneud dau sylw sy'n pwysleisio eu dealltwriaeth o safbwynt CoRWM. Y cyntaf yw bod *"CoRWM yn cydnabod 'yr ansicrwydd ynghylch gweithredu gwaredu daearegol'*.

15. Fel y nodwyd uchod ym mharagraff 5, mae ansicrwydd ynghylch a ellir gweithredu rhaglen gwaredu daearegol yn hytrach nag ynghylch gwaredu daearegol fel y cyfryw, felly ymddengys fod yr Awdurdodau Lleol Di-Niwclear wedi camddehongli'r argymhelliad.
16. Yr ail sylw yw bod sylwadau CoRWM **'wedi'u hanelu at sgil-gynhyrchion gwastraff sy'n bodoli eisoes a sgil-gynhyrchion gwastraff yr ymrwymwyd i'w cynhyrchu'** a bod **'creu mwy o wastraff'** yn codi materion gwleidyddol a moesegol gwahanol iawn.
17. Llywiwyd argymhellion gwreiddiol CoRWM gan weithgarwch ymgysylltu helaeth â'r cyhoedd a rhanddeiliaid a gyflawnwyd ar adeg pan nad oedd disgwyl i unrhyw orsafoedd ynni niwclear newydd gael eu hadeiladu. Felly, ni allai ddarparu tystiolaeth o farn y cyhoedd a rhanddeiliaid am wastraff o orsafoedd ynni niwclear newydd. Nid oedd yn rhan o rôl CoRWM bryd hynny i lunio barn ar orsafoedd ynni niwclear newydd ac nid yw'n rhan o'i rôl nawr. Fodd bynnag, mae CoRWM wedi nodi, mewn egwyddor, y gellid darparu ar gyfer gwastraff o orsafoedd ynni niwclear newydd ochr yn ochr â gwastraff gwaddol ond byddai gwneud hyn yn llwyddiannus, yn ymarferol, yn dibynnu'n fawr iawn ar natur benodol y cyfleuster a'r achos diogelwch cysylltiedig.
18. Aiff yr Awdurdodau Lleol Di-Niwclear ymlaen i gyfeirio at gyflwyniad y Partneriaid Cynghori ar Wastraff Niwclear (NWAA) i gais yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd am dystiolaeth yn 2013 lle y nododd: **'Anwybyddodd y llywodraeth y gofyniad, sydd ymhlyg yn y term 'y wybodaeth sydd gennym ar hyn o bryd', i gydnabod bod gwaredu ymhell o fod yn dechnoleg brofedig ac yr erys felly' a chyfleu hynny i'r cyhoedd. Fe'i nodir yn union uwchben fod NWAA yn cynnwys dau gyn-aelod o CoRWM 1.**
19. Gwnaeth CoRWM 1 15 o argymhellion y cytunwyd ar bob un ohonynt yn unfrydol gan yr holl aelodau. Treuliwyd cryn amser yn drafftio'r argymhellion ac yn trafod eu geiriad mewn sesiynau cyhoeddus. O ddarllen Argymhelliad 1 yn llawn ceir yr awgrym na fwriadwyd i'r cyfeiriad at 'y wybodaeth sydd gennym ar hyn o bryd' gyfleu neges am dechnoleg gwaredu daearegol ond yn hytrach y bwriadwyd iddo gydnabod y gellid datblygu dulliau eraill yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf ac y dylid ystyried y rhain fel y bo'n briodol. Yr argymhelliad llawn yw:

Argymhelliad 1: *Ar sail y wybodaeth sydd gennym ar hyn o bryd, mae CoRWM o'r farn mai gwaredu daearegol yw'r dull gorau sydd ar gael o reoli'r holl ddeunydd sydd wedi'i gategoreiddio'n wastraff yn stocrestr CoRWM yn yr hirdymor o'i gymharu â'r risgiau sy'n gysylltiedig â phob dull rheoli arall. Dylid anelu at symud at weithredu gwaredu daearegol cyn gynted ag y bo'n ymarferol, mewn ffordd sy'n meithrin ac yn cynnal hyder y cyhoedd a rhanddeiliaid.*

20. Mae'r ffaith bod CoRWM 1 wedi argymhell y dylid gweithredu gwaredu daearegol cyn gynted ag y bo'n ymarferol yn awgrymu nad oedd y cyfeiriad at 'y wybodaeth sydd

gennym ar hyn o bryd' yn ymwneud ag ansicrwydd ynghylch gwaredu daearegol. Yn lle hynny mae'n awgrymu ansicrwydd ynghylch y tebygolrwydd y bydd dulliau rheoli eraill yn addas. Ers hynny mae CoRWM wedi ailddatgan ei gefnogaeth i waredu daearegol ac mae'r pwyllgor presennol yn dal i fod yn argyhoeddedig mai dyma'r opsiwn gorau ar gyfer rheoli GUA ar hyn o bryd.

- 21. Mae pwynt 3 Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at y cais i CoRWM gyflwyno sylwadau ar y ddaeareg orau neu ddaeareg dderbyniol ac amheuan ynghylch defnyddio peirianeg i gyflwyno achos diogelwch dichonadwy. Noda'r Awdurdodau Lleol Di-Niwclear er y "Gall CoRWM fod wedi pwysleisio dro ar ôl tro mai dim ond un elfen sy'n cyfrannu ar yr achos diogelwch yw daeareg, i'r cyhoedd mae hefyd yn fater o ymddiriedaeth. Efallai y byddai CoRWM ei hun am esbonio pam bod cyn-bennaeth Cyngor Cumbria yn dal yn "argyhoeddedig ... y gellir teilwra atebion wedi'u peiriannu i gyd-fynd â'r ddaeareg" er gwaethaf y sicrwydd a roddodd iddo."**
- 22. Mae CoRWM yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd meithrin a chynnal ymddiriedaeth y cyhoedd yn y broses weithredu a dyna pam mae'n rhoi cymaint o bwyslais ar yr angen i gyfleu arwyddocâd yr achos diogelwch i'r cyhoedd. Wrth reswm, bydd yr achos diogelwch yn golygu rhoi ystyriaeth fanwl i anghenion peiriannu daeareg benodol ond nid yw hyn yn awgrymu y gellir teilwra atebion wedi'u peiriannu i ddisodli swyddogaethau diogelwch y ddaeareg.**
- 23. Mae'r Awdurdodau Lleol Di-Niwclear yn croesawu'r ffaith yr ymddengys fod cyn aelod o CoRWM wedi cydnabod "bod Papur Gwyn diweddaraf y Llywodraeth wedi symud cryn dipyn o ffordd tuag ag y galwadau i flaenoriaethu daeareg dros wirfoddoli yn y lle cyntaf".**
- 24. Nid yw dealltwriaeth CoRWM o'r Papur Gwyn yn ategu'r dehongliad hwn; mae gwirfoddoli yn dal i fod wrth wraidd y broses; gall gwybodaeth am ddaeareg lywio'r broses o ystyried gwirfoddoli ac nid yw'n cael blaenoriaeth. Mae CoRWM yn cadarnhau ei fod yn gwbl ymrwymedig i'r dull gwirfoddoli.**
- 25. Mae'r Awdurdodau Lleol Di-Niwclear yn troi nawr at eu hymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru. Mewn ymateb i Gwestiwn 1, maent yn rhoi dau brif reswm dros wrthwynebu gwaredu dwfn. Y cyntaf yw eu pryderon ynghylch yn ansicrwydd sy'n gysylltiedig â gorfod dibynnu ar fodelau cyfrifiadurol i fapio cyfraddau gollwng. Yr ofn y gallai "CGD greu tomen wastraff niwclear sy'n gollwng, a fyddai'n gosod baich sylweddol na ellir ei fesur ar genedlaethau'r dyfodol yn hytrach na chodi baich oddi arnynt drwy waredu GUA, fel y dadleuwyd gan CoRWM wrth lunio ei argymhellion ar gyfer gwaredu. Byddai'n llawer gwell rhoi iddi'r opsiwn o reoli'r gwastraff fel y gwêl yn dda.**
- 26. Treuliodd CoRWM 1 gryn amser yn ymchwilio i faterion sy'n ymwneud â thegwch sy'n pontio'r cenedlaethau, yn ymgynghori arnynt ac yn eu trafod. Wrth gwrs, mae'n amhosibl gwybod beth fydd yn digwydd yn y dyfodol, na gwybod beth yr hoffai**

cenedlaethau'r dyfodol i ni fod wedi'i wneud. Ar ôl ystyried yr opsiynau eraill, penderfynodd CoRWM, am y rhesymau a esbonnir yn nogfen 700 CoRWM, y bydd gwaredu GUA yn ddaearogol yn opsiwn gwell ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol yn hytrach na gadael iddynt ddelio ag ef. Dyma farn CoRWM ers hynny.

27. Mae'r Awdurdodau Lleol Di-Niwclear yn cyfeirio at y ffaith bod y broses Rheoli Gwastraff Ymbelydrol yn Ddiogel (MRWS) wedi methu.

28. Mae CoRWM o'r farn nad yw'r broes wedi methu. Mae'r penderfyniad i ddod â'r broses i ben yn Cumbria yn tystio i lwyddiant y dull gwirfoddoli sydd wrth wraidd MRWS.

29. Mae cyfeiriad nesaf yr Awdurdodau Lleol Di-Niwclear at CoRWM fel a ganlyn: **"Roedd CoRWM yn ymwybodol o'r ansicrwydd ynghylch gweithredu gwaredu daearogol. Mynegodd y farn bod angen canolbwyntio ar reoli gwastraff yn ddiogel mewn storfeydd interim cadarn, nid yn unig yn ystod y cyfnod cyn agor Cyfleuster Gwaredu Daearegol, ond hefyd oherwydd risg oedi neu fethiant yn y rhaglen storio. Mae angen ystyried y posibilrwydd y bydd angen storio gwastraff yn yr hirdymor neu hyd yn oed am gyfnod amhenodol".**

30. Nid yw CoRWM yn cytuno â'r datganiad hwn. Mae gweithredu gwaredu daearogol yn ymarfer hirdymor ac mae'n ddoeth ac yn hanfodol sicrhau y caiff y gwastraff ei reoli'n briodol nes y bydd cyfleuster ar gael.

31. Dywed yr Awdurdodau Lleol Di-Niwclear fod **"CoRWM yn glir nad oedd 'gwaredu' gwastraff ymbelydrol yn ddwfn ymhell o fod yn dechnoleg brofedig. Argymhellodd raglen ymchwil a datblygu dwysach ynglŷn â diogelwch gwaredu daearogol yn yr hirdymor, ond hefyd raglen storio interim gadarn".**

32. Unwaith eto, mae hyn yn camddehongli rhesymau CoRWM dros ei becyn o argymhellion lle y nodwyd y dylid gweithredu gwaredu daearogol ochr yn ochr â rhaglen storio interim. Argymhellodd y dylid sefydlu rhaglen ymchwil (Argymhelliad 4) ac mae'n parhau i fynegi barn ar yr angen am waith ymchwil i faes rheoli gwastraff ymbelydrol yn yr hirdymor, gan gynnwys gwaredu daearogol, ac addasrwydd gwaith ymchwil o'r fath. Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu ei fod o'r farn bod gwaredu ymhell o fod yn dechnoleg brofedig.

33. Datganiad nesaf yr Awdurdodau Lleol Di-Niwclear yw bod **"CoRWM hefyd wedi dweud nad oedd am i'w argymhellion gael eu hystyried yn gefnogaeth i adweithyddion niwclear newydd" ac aiff ymlaen i ddyfynnu'r canlynol.**

"Byddai gwastraff o adweithyddion newydd yn ymestyn yr amserlen weithredu am gyfnodau hirfaith o bosibl ond anhysbys yn y bôn yn y dyfodol. At hynny, mae'r materion gwleidyddol a moesegol a godir o greu mwy o wastraff yn wahanol iawn i'r rhai sy'n ymwneud â gwastraff yr ymrwymwyd i'w gynhyrchu - ac

felly nad oes modd ei osgoi. Pe bai rhaglen o adweithyddion newydd gael ei chyflwyno, ym marn CoRWM, byddai angen proses gwbl ar wahân i brofi a dilysu cynigion ar gyfer rheoli gwastraff a gynhyrchir o ganlyniad i hynny"

34. Dyfyniad o Ddogfen 700 CoRWM, tudalen 15, paragraff 25 yw hwn ac fe'i cynhwyswyd yn yr adroddiad hwnnw er mwyn pwysleisio'r pwynt bod deialog helaeth â'r cyhoedd a rhanddeiliaid wedi canolbwyntio ar orsafoedd ynni niwclear gwaddol ac nid gorsafoedd ynni niwclear newydd. Ers hynny mae'r Llywodraeth wedi cymryd cyfrifoldeb am ymgynghori ynghylch gorsafoedd ynni niwclear newydd. Mae a wnelo rôl CoRWM â rheoli gwastraff uwch ei actifedd, yn hytrach na gorsafoedd ynni niwclear newydd.
35. Mewn ymateb i Gwestiwn 2, mae'r Awdurdodau Lleol Di-Niwclear yn nodi'r canlynol: "Mae'n amlwg o adroddiad 2006 CoRWM mai gwaredu daearegol yw'r opsiwn "lleiaf gwael" ym marn CoRWM". Ânt ymlaen i gyfeirio unwaith eto at Argymhelliad 2 CoRWM ynghylch storio interim.
36. Ni ddisgrifiodd CoRWM waredu daearegol fel yr opsiwn lleiaf gwael ar unrhyw adeg ac nid yw Argymhelliad 2 yn awgrymu hyn mewn unrhyw ffordd. Mae CoRWM yn dal i fod o'r farn mai gwaredu daearegol yw'r "dull gorau sydd ar gael" ac nid oes unrhyw beth wedi digwydd ers 2006 i beri i'r pwyllgor newid ei feddwl.
37. Mae'r Awdurdodau Lleol Di-Niwclear yn nodi mai'r "syniad mai gwaredu daearegol yw'r polisi gorau sydd ar gael, ond yn un sydd ymhell o fod yn ateb delfrydol i'r broblem oedd y rheswm pam y dywedodd CoRWM fod creu mwy o wastraff yn codi materion moesegol newydd".
38. Mae'r datganiad hwn yn ddi-sail.
39. Mae CoRWM yn falch o ddarllen bod yr Awdurdodau Lleol Di-Niwclear o'r farn "ei bod yn bosibl na fydd angen edrych eto ar restr hir CoRWM o opsiynau".
40. Mae Adran 4 yn crynhoi dadleuon yr Awdurdodau Lleol Di-Niwclear. Ailadroddodd yr Awdurdodau Lleol Di-Niwclear y cyhuddiad bod MRWS wedi methu am ei bod yn anwybyddu'r rhan fwyaf o argymhellion CoRWM, yn arbennig yr angen am waith ymchwil.
41. Nid yw CoRWM o'r farn bod MRWS wedi methu nac ychwaith ei bod wedi anwybyddu'r angen am waith ymchwil.
42. Yn olaf, mae'r Awdurdodau Lleol Di-Niwclear yn awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru "weithredu argymhelliad CoRWM y dylid cynnal trafodaeth hollol ar wahân ar y materion gwleidyddol a moesegol a godir o greu gwastraff newydd drwy adeiladu adweithyddion newydd".

- 43.** Mae'r broses o gytuno ar bolisi ar gyfer ynni niwclear newydd wedi cynnwys sawl ymgynghoriad a bu'n agored i'w herio. Cyfeiriodd argymhelliad CoRWM at y sefyllfa benodol lle y gwnaed y gwaith ymchwil ar gyfer yr adroddiad hwn ar adeg pan mai gwastraff gwaddol oedd yr unig fater dan sylw ond erbyn i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, roedd gorsafoedd ynni niwclear newydd yn dechrau cael eu hystyried o ddifrif. Nid yw'n berthnasol i'r sefyllfa bresennol.

DATGANIAD I'R WASG GAN YR AWDURDODAU LLEOL DI-NIWCLEAR

- 44.** Roedd dau gyfeiriad at CoRWM yn y datganiad hwn, yr oedd y ddau ohonynt yn ailadrodd sylwadau a wnaed yn ymateb yr Awdurdodau Lleol Di-Niwclear.

- 45.** Nodir sylwadau CoRWM ym mharagraffau 40 i 43 uchod.

Di-enw 1

- 46.** Cyfeirir at CoRWM ym mharagraff 4.6.1 o'r ymateb hwn sy'n nodi'r canlynol: "Ymddengys i CoRWM lwyddo mewn modd cynnil i berswadio Llywodraeth Cymru i beidio ag ymgynghori ynghylch opsiwn gwaredu i Gymru ar gyfer GUA/gweddillion tanwydd a gynhyrchwyd yng Nghymru (Ymgynghoriad para 3.14 ac, Ymgynghoriad Atodiad 3: ymateb rhif 13). Oni ellir dadlau bod yr ymyriad hwnnw gan CoRWM y tu allan i faes arbenigedd y corff cynghori? Sef, agweddau technegol ar waredu gwastraff ymbelydrol a'i reoli yn yr hirdymor. Pam na ddylid perswadio llywodraeth ddatganoledig i ymgynghori â'r cyhoedd yng Nghymru ynghylch gwaredu gwastraff a gynhyrchwyd yng Nghymru, fel opsiwn o dan adolygiad o bolisi ar waredu unrhyw le/yn rhywle arall?"

- 47.** Mae paragraff 3.14 o'r Ddogfen Ymgynghori yn nodi, yn gywir ddigon, y sefyllfa bolisi o ran cyfrifoldebau datganoledig Llywodraeth Cymru. Mae sylw CoRWM ar y mater hwn fel y'i nodwyd yn y paragraff diwethaf o dan ymateb rhif 13 yn Atodiad 3 fel a ganlyn:

'Ymddengys fod rhywfaint o ddryswch yn yr ymatebion ynghylch a yw Llywodraeth Cymru yn ystyried opsiwn gwaredu i Gymru (ar gyfer gwastraff a gynhyrchir yng Nghymru) neu a yw'n ceisio pennu polisi i Gymru yng nghyd-destun y DU. Mae CoRWM yn argymhell yn gryf y dylai Llywodraeth Cymru egluro'r mater hwn os bydd yn penderfynu bwrw ymlaen ag adolygiad o bolisi.'

- 48.** Nid oes unrhyw beth yn y datganiad hwn i awgrymu bod CoRWM yn ffafrio'r naill opsiwn dros y llall na bod CoRWM yn ymyrryd ym mholisi Cymru. Fel y nodwyd, y bwriad oedd awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru egluro'r hyn yr oedd yn ei olygu wrth waredu yng Nghymru.

CND CYMRU

- 49.** Mewn ymateb i Gwestiwn 4, mae CND Cymru yn nodi “ei fod yn rhannu pryder CoRWM na ddylai unrhyw ateb dros dro ar gyfer gwastraff ymbelydrol sy'n bodoli eisoes baratoi'r ffordd ar gyfer adeiladu unrhyw adweithyddion niwclear newydd yng Nghymru”. Cyfeirir at y sylw hwn yn <http://www.corwm.org.uk/content-1038>.

- 50.** Ymddengys fod y cyfeiriad hwn yn Ddatganiad i'r Wasg (atodir copi) nad yw'n berthnasol i'r pwynt a wnaed. Heb wybod y cyd-destun, ni all CoRWM ond nodi nad yw'n deall beth yw ystyr “ateb dros dro” ac nad yw'n cydnabod ei fod yn rhan o ddatganiad a wnaed ganddo.

Di-enw – XZ

- 51.** Mae'r ymateb hwn yn gwneud sylw am CoRWM sy'n debyg i'r un a gynhwyswyd yn ymateb yr Awdurdodau Lleol Di-Niwclear. Honnir bod “hyd yn oed CoRWM yn cydnabod bod gwaredu daearegol yn dechnoleg nas profwyd a bod angen trefniadau storio interim cadarn. Er hynny, mae o blaid gwaredu daearegol”.
- 52.** Unwaith eto, mae hyn yn camddehongli argymhelliad CoRWM y dylid gweithredu gwaredu daearegol ochr yn ochr â storio interim.
- 53.** Aiff yr ymateb ymlaen i ddweud bod yr ymatebydd o'r farn “bod [Llywodraeth Cymru] yn cymryd yr opsiwn hawdd, sef dilyn yr argymhelliad a wnaed gan CoRWM a Llywodraeth y DU yn slafaid”.
- 54.** Wrth gwrs, mae argymhellion gwreiddiol CoRWM wedi'u datblygu ac wedi'u mireinio gan y Llywodraeth ac mae'n anghywir datgan nad yw Llywodraeth Cymru (nac unrhyw un arall) ond yn dilyn argymhellion CoRWM yn “slafaid”.

Linda Rogers

- 55. Mae'r ymateb hwn yn cynnwys sawl anghywirdeb a chamddealltwriaeth ynghylch rôl CoRWM. Honnir mai'r "cyfan y mae CoRWM wedi'i wneud yn yr ymgynghoriad hwn yw helpu i newid amcanion y cwestiwn hwn, gyda'i gysyniadau o "rwystrau" ac ati".**
- 56. Hoffai CoRWM nodi'n glir mai ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru oedd hon. Mae gan CoRWM rôl i'w chwarae o ran rhoi cyngor i Lywodraeth Cymru ond nid ysgrifennodd y ddogfen ymgynghori ac ni all dderbyn unrhyw glod am ei chynigion.**
- 57. Ceir sawl cyfeiriad at rwystrau yn y Ddogfen Ymgynghori ond nid oes unrhyw sylwadau yn Atodiad 3 sy'n ymdrin â chyngor CoRWM. Mae'n debyg bod yr ymatebydd yn cyfeirio at baragraff 2.46 sy'n trafod y farn a fynegwyd gan CoRWM a'r rheoleiddwyr y bydd gwaredu daearegol yn cynnwys amrywiaeth o rwystrau.**
- 58. Mae hyn yn rhan o arfer gorau rhyngwladol ac mae bob amser wedi bod yn un o gysyniadau sylfaenol gwaredu daearegol. Nid yw'n gysyniad a grëwyd gan CoRWM.**
- 59. Cyhuddir CoRWM hefyd o "weithredu yng nghyd-destun y DU ac arwain Llywodraeth Cymru i mewn i'r senario a bennwyd ar ein cyfer gan Lundain, gyda pholisi ynni sydd er budd Llundain".**
- 60. Mae CoRWM yn rhoi cyngor i bob un o'r adrannau sy'n ei noddi ar wahân neu gyda'i gilydd yn ôl yr amgylchiadau. Nid yw'n gyfrifol am lunio polisi na defnyddio ei rôl gynghori i hyrwyddo buddiannau un o'i noddwyr dros y lleill.**
- 61. Gan gyfeirio at baragraff 5.18 o'r Ddogfen Ymgynghori, mae'r ymatebydd yn awgrymu bod yr ystadegau ar wastraff o orsafoedd ynni niwclear newydd "yn awgrymu ei bod yn bosibl bod y rhai sy'n dadlau â CoRWM ynghylch y gallu i gladdu gwastraff gwaddol gyda gwastraff newydd yn gywir".**
- 62. Mae CoRWM yn cydnabod y gallai gwastraff o orsafoedd ynni niwclear newydd ychwanegu cryn dipyn at y stocrestr o wastraff sydd i'w waredu yn y pen draw. Cred, mewn egwyddor, y gellid darparu ar gyfer y gwastraff newydd hwn ochr yn ochr â gwastraff gwaddol ond y byddai gwneud hyn yn llwyddiannus yn dibynnu'n fawr iawn ar natur benodol y cyfleuster a'r achos diogelwch cysylltiedig.**

Di-enw (BJ)

- 63. Cyfeirir at CoRWM yn yr ymateb i Gwestiwn 4 sy'n gofyn am unrhyw sylwadau eraill. Mae'r sylw yn ymwneud ag awgrym CoRWM y dylid ystyried materion sy'n ymwneud â gwastraff gwaddol a gwastraff o orsafoedd ynni niwclear newydd ar wahân. Mae'r ymatebydd o'r farn bod "perygl gwirioneddol, wrth**

ddod o hyd i ateb i'r broblem bresennol, a all fod yn ateb "llai na pherffaith er mai ef yw'r un gorau y gallwn ddod o hyd iddo", y bydd hyn wedyn yn sêl bendith ar gyfer datblygu cenedlaeth newydd o orsafoedd ynni niwclear". Aiff ymlaen i gyfeirio at argymhelliad tybiedig CoRWM bod trafodaeth gyhoeddus wirioneddol i'w chynnal ynghylch mater sy'n pontio'r cenedlaethau, sef creu gwastraff niwclear newydd nawr y bydd cenedlaethau'r dyfodol yn gorfod delio ag ef.

64. Yn ei adroddiad yn 2006 (dogfen 700 CoRWM), nododd CoRWM bod y materion moesegol a chymdeithasol sy'n ymwneud â gwastraff o orsafoedd ynni niwclear newydd yn wahanol i'r rhai sy'n ymwneud â gwastraff gwaddol ond ni chyfeiriodd yn benodol at faterion sy'n pontio'r cenedlaethau. Safbwynt presennol CoRWM yw bod yr ymgynghoriad hwn yn ymwneud â rheoli gwastraff yn hytrach na pha un a yw'n ddymunol adeiladu gorsafoedd ynni niwclear newydd ai peidio. Ymdriniwyd eisoes â mater rheoli gwastraff o orsafoedd ynni niwclear newydd ar lefel wleidyddol.

Peter Varley

65. Mae'r ymateb hwn yn amau'r datganiad ym mharagraff 2.21 o'r Ddogfen Ymgynghori bod cyngor CoRWM wedi'i gymeradwyo gan gymdeithasau hyddysg.
66. Yn wir, mae'r gymeradwyaeth yn cyfeirio at y ffaith mai gwaredu daearegol yw'r opsiwn rheoli gorau sydd ar gael. Fodd bynnag, mae'r cyfeiriad at adroddiad y Gymdeithas Frenhinol ar waith CoRWM, a gyhoeddwyd yn 2006, yn amheus. Lluniwyd yr adroddiad er mwyn cynorthwyo CoRWM gyda'i waith dadansoddi opsiynau ac mae'n cynnwys nifer o awgrymiadau ar gyfer gwella a ystyriwyd gan CoRWM. Ni fwriadwyd iddo fynegi unrhyw farn ar effeithiolrwydd neu aneffeithiolrwydd opsiynau rheoli.
67. Mae a wnelo'r ail gyfeiriad at CoRWM â chyngor CoRWM ar WIPP. Gan na allai CoRWM ddarparu diagnosis cwbl hyddysg o'r rhesymau dros y gollyngiad, mae'r ymatebydd o'r farn y byddai'n well casglu'r dystiolaeth yn gyntaf ac wedyn gwneud y penderfyniad.
68. Mae CoRWM yn cytuno; bydd y broses o weithredu gwaredu daearegol yn cynnwys casglu tystiolaeth o lawer o ffrydiau gwahanol a bydd unrhyw benderfyniad i fwrw ymlaen â'r broses yn amodol ar dderbyn achos diogelwch a ategir gan y dystiolaeth briodol. Nid yw'r digwyddiad yn WIPP, na chyngor CoRWM mewn perthynas ag ef, yn berthnasol i'r mater hwn.

PAWB

- 69.** Mae PAWB yn pryderu bod Llywodraeth Cymru yn dibynnu'n fawr ar gyngor CoRWM a'i fod yn cael cyngor gwael. Er ei fod yn nodi bod "CoRWM ... wedi gwneud cryn dipyn o waith cyn gwneud argymhellion, yn ei adroddiad yn 2006, y dylid ... gwaredu gwastraff yn ddaearegol ... mae PAWB o'r farn bod y casgliad hwn yn ddiffygiol".
- 70.** Fel y noda PAWB, cadarnhaodd CoRWM ei farn yn 2013 ac mae'n dal i'w harddel. Mae'r ffaith nad yw PAWB wedi'i argyhoeddi o rinweddau gwaredu daearegol yn rhywbeth na all CoRWM roi rhagor o sylw iddo, yn ôl pob tebyg.
- 71.** Nodir yn ymateb PAWB bod "aelodau CoRWM wedi bod yn gweithio'n bennaf o blaid y diwydiant niwclear, neu eu bod wedi bod yn ymwneud â chyrff rheoleiddio'r diwydiant niwclear, a'u bod yn parhau i wneud hynny. Enwir sawl aelod o CoRWM.
- 72.** Hoffai CoRWM nodi mor glir â phosibl ei fod yn gorff annibynnol a bod hynny'n golygu ei fod yn annibynnol ar y llywodraeth, diwydiant ac ati. Mae angen gwybodaeth am faterion niwclear a rhyw fath o ymwneud â materion niwclear er mwyn sicrhau bod gan y Pwyllgor y sgiliau, yr arbenigedd a'r profiad i ystyried materion. Mae pob aelod yn datgan ei fuddiannau ym mhob cyfarfod a chaiff unrhyw achosion posibl o wrthdaro buddiannau eu codi a'u hystyried. Nid yw aelodau yn cymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau lle y gellid tybio bod gogwydd posibl. Yn bwysicaf oll, dylid nodi mai rôl CoRWM yw rhoi cyngor ar y broses o reoli GUA a chraffu arni. Nid yw CoRWM yn gyfrifol am hyrwyddo gwaredu daearegol yn hytrach ei rôl yw sicrhau, os bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu ar bolisi o waredu daearegol, y caiff y broses weithredu ei chyflawni yn y ffordd orau bosibl.

Wayne Jones

- 73.** Mae'r ymateb hwn yn hir ac yn fanwl ac yn cyfeirio at nifer o ddogfennau ategol. Cyfeirir at CoRWM ddwywaith.
- 74.** Mae natur y sylwadau yn golygu ei bod yn anodd ymateb.
- 75.** Ym mharagraff 11, nodir nad oedd "Arbenigwyr niwclear mor argyhoeddedig pan gyflawnwyd y gweithrediad drilio prawf diwethaf ag y maent bellach o edrych ar ymatebion CoRWM, heb fantais rhaglen drilio prawf".

- 76.** Heb ragor o gyd-destun o ran y gwaith drilio, yr arbenigwyr ac ymatebion CoRWM y cyfeirir atynt, mae'n anodd gwneud sylw penodol.
- 77.** Yn yr un modd, mae paragraff 14 yn cyfeirio at y ffaith nad yw CoRWM wedi cynnig unrhyw gyngor i adeiladwyr Pentre Ifan ar yr hyn a fydd yn bodloni cyfarwydddeb yr UE.
- 78.** Nid yw CoRWM yn deall y pwynt sy'n cael ei wneud yma.